Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-2019

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gofal Cymdeithasol Cymru a baratowyd yn unol ag Atodlen 2, Rhan 6 paragraff 16 (1-3) o Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 ynghyd ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon hynny ac a gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Gymdeithasol (Cymru) 2016 Atodlen 2, Rhan 6 Paragraff 16 (4)

## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a nodir uchod.

# Cynnwys

## Adroddiad perfformiad .....4

**Trosolwg** .....4

Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu .....4

Rôl Gofal Cymdeithasol Cymru – pwy ydym ni .....6

Ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol .....6

Materion allweddol a'r risgiau a wynebwn .....7

**Dadansoddiad o berfformiad** .....8

## Adroddiad atebolrwydd .....19

**Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol** .....19

Adroddiad y cyfarwyddwyr .....19

Datganiad o gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Prif Weithredwr .....20

Datganiad llywodraethu .....21

**Adroddiad ar gyflogau a staff** .....31

Adroddiad ar gyflogau .....31

Adroddiad staff .....35

**Atebolrwydd ac archwilio** .....39

**Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru** .....40

## Datganiadau ariannol .....43

Datganiad ar wariant net cynhwysfawr .....43

Datganiad ar y sefyllfa ariannol .....44

Datganiad ar lifoedd arian .....45

Datganiad ar newidiadau yn ecwiti trethdalwyr .....46

Nodiadau i'r cyfrifon .....47

# Adroddiad perfformiad
## Trosolwg

### Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu



Rydym yn ein hail flwyddyn o gyflawni yn erbyn ein cynllun strategol 2017-2022. Diolch i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled ein staff a'n partneriaid, rydym wedi llwyddo i gyflawni'r rhaglen waith gyfan bron fel y nodwyd yn ein cynllun busnes a 100 y cant o flaenoriaethau ein llythyr cylch gwaith. Mae trosolwg o rai o'n cyflawniadau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cipolwg ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni eleni.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ein blaenoriaethau hirdymor i ddylanwadu a chyflawni yn erbyn y weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar lesiant. Mae ein cyfraniadau a'n datblygiadau yn cefnogi uchelgeisiau *Cymru Iachach* sy'n darparu'r weledigaeth ar gyfer dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r weledigaeth hirdymor ddi-dor hon yn sail i'n gwaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd i weddnewid gofal a chymorth yng Nghymru fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mewn cyd-destun polisi a deddfwriaethol, mae Brexit wedi bod yn rhan sylweddol o'r agendâu hyn dros y 12 mis diwethaf. Mae ein ffocws wedi bod ar gynllunio ar gyfer Brexit 'dim cytundeb', ac rydym wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac eraill i leihau tarfu, cyflymu trefniadau cynllunio a chyfeirio partneriaid gofal cymdeithasol at gyngor ac adnoddau defnyddiol.

Cafwyd rhai darnau pwysig, dylanwadol a phwerus o waith yn ymwneud â gofal dros y flwyddyn ddiwethaf. Bûm yn ymwneud â'r fenter Mesur y Mynydd, sef menter unigryw sy'n casglu profiadau pobl o ofal cymdeithasol ledled Cymru. Yr adroddiad terfynol yw'r cyntaf o'i fath a bydd yn taflu goleuni ar y ffordd y mae gofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn teimlo am ofal cymdeithasol. Ariannwyd Mesur y Mynydd gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi casglu bron i 500 o straeon personol o bob rhan o Gymru am ofal cymdeithasol sy'n datgelu'r berthynas gymhleth, fregus a phwysig sydd gan bobl pan fyddant yn ofalwyr neu sydd angen gofal a chymorth.

Dim ond drwy weithio ag eraill sy'n gwneud ein cyflawniadau'n bosibl ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu a gwrando ar farn ein partneriaid, rhanddeiliaid ac unigolion er mwyn llunio a llywio ein gwaith.

Rydym am wybod bod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i bobl a'u cymunedau yng Nghymru. Rydym wedi dechrau mireinio'r ffordd rydym yn mesur effaith ein gwaith, er mwyn dangos manteision rheoleiddio, safonau a datblygu'r gweithlu wrth wella'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Gall hefyd amlygu sut mae ein gweithgareddau gwella gwasanaeth yn cyfrannu at ddiogelu a gwella llesiant pobl a'u cymunedau.

Gan edrych ymlaen at ein rhaglen waith yn 2019-2020 byddwn yn parhau i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, a sefydliadau i arwain a chefnogi gwelliant mewn

gofal cymdeithasol. Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid allweddol i ddatblygu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yng Nghymru.

Uchafbwyntiau'r blaenoriaethau ar gyfer 2019-20 yw:

- gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), datblygu strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- cofrestru gweithwyr gofal cartref a pharatoi ar gyfer cofrestru grwpiau gweithlu gofal cymdeithasol eraill
- gyda Cymwysterau Cymru ac AaGIC, lansio'r cymwysterau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant newydd
- datblygu ein rôl newydd, estynedig mewn perthynas â gweithlu'r blynyddoedd cynnar
- gyda phartneriaid, codi proffil y sector drwy'r ymgyrch 'Gofalwn'
- parhau i fwrw ymlaen â'n cynlluniau gwella cenedlaethol fel y cytunwyd
- parhau i gefnogi agendâu allweddol Llywodraeth Cymru – mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, yr economi sylfaenol, yr ardoll gofal cymdeithasol a chyfrannu at waith sy'n datblygu a trafodaethau ynghylch parch cydradd i iechyd a gofal cymdeithasol.

**Sue Evans**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 24 Gorffenaf 2019







## Rôl gofal cymdeithasol Cymru – pwy ydym ni

**Datblygu'r gweithlu** iddyn nhw gael y wybodaeth a sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi pobl sydd angen help arnynt

**Gweithio gydag eraill** i wella gwasanaethau ym meysydd sydd wedi'u cytuno'n flaenoriaeth genedlaethol

**Rhoi gwybodaeth** i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill

**Rhannu ymarfer da** â'r gweithlu er mwyn iddyn nhw roi'r ymateb gorau

**Gosod blaenoriaethau ymchwil** i gael tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda

**Gosod safonau** i'r gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith

## Ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol

### Ein diben

Magu hyder yn y gweithlu ac arwain a chefnogi gwelliannau ym maes gofal


### Ein gweledigaeth

Hoffem i bawb sydd angen cymorth fyw'r bywyd sy'n bwysig iddyn nhw

## Ein nodau

Mae ein tri nod strategol yn diffinio ein gwaith. Bydd y nodau hyn yn arwain at:

- ddeilliannau llesiant gwell i blant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, eu teuluoedd a gofalwyr
- gweithlu digonol, medrus o safon uchel
- pobl yn cael hyder yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn cynnwys y gweithlu blynyddoedd cynnar, ac effeithiolrwydd Gofal Cymdeithasol Cymru.




## Materion allweddol a'r risgiau a wynebwn

Rydym yn darparu gwybodaeth am sut rydym yn rheoli risg a'n prif risgiau yn y datganiad llywodraethu ar dudalen 21. Dyma'r ddau ffactor y credwn fydd yn dylanwadu mwyaf dros y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith ac yn gwireddu ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf:

- cyfyngiadau ariannol
- y tirlun polisi cymhleth.

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae ein cynllun busnes blynyddol ar gyfer 2018-19 yn nodi ein hamcanion strategol, ynghyd â'n gweithgareddau a mesurau cyflawni lefel uchel. Drwy gydol y flwyddyn, mae ein Tîm Rheoli Gweithredol yn derbyn adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol, ac yna mae ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn craffu arnynt.

Yn gyffredinol, llwyddom i gyflawni pob un o'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein llythyr cylch gwaith. Dyma grynodeb o rai o'n prif gyflawniadau.

### Rhoi hyder i'r cyhoedd

Rydym am i bobl gael hyder yn y sector gofal cymdeithasol ac yn effeithiolrwydd Gofal Cymdeithasol Cymru

**Gweddnewid gofal yn yr 21ain ganrif**

Yn ystod y flwyddyn, buom yn parhau i gynnal sgyrsiau gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol er mwyn gweithredu'r rhaglen "Gweddnewid gofal yn yr 21ain ganrif", lle y cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd yn rhaid i weithwyr gofal cartref gofrestru gyda ni erbyn 2020 ac y bydd yn rhaid i'r gweithlu cartrefi gofal i oedolion gofrestru erbyn 2022. Bydd hyn yn ychwanegu 30,000 at y Gofrestr. Mae'r estyniad hwn i'r Gofrestr yn rhan o ymrwymiad tymor hir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi a gwerthfawrogi'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae cofrestru yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi statws gweithwyr. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau gweithlu digonol, sy'n barod i wynebu'r heriau newydd, gyda'r sgiliau priodol a hyder yn eu hymarfer.

Dechreuodd gweithwyr gofal cartref gofrestru gyda ni ym mis Ebrill 2018 ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i sicrhau ein bod yn rheoleiddio ar gyfer gwelliannau. Yn ein hymgynghoriad ar ymestyn y Gofrestr a'n hymgysylltu parhaus â chyflogwyr a gweithwyr, fe ofynnoch i ni:

- ddarparu sioeau teithiol yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn cynorthwyo darparwyr i drafod pwysigrwydd cofrestru gyda'u gweithwyr
- darparu gwybodaeth glir a hygyrch am gofrestru, gan gynnwys canllawiau 'sut i gofrestru' ac egluro'r gofynion a chyfrifoldebau
- ystyried cymorth i'r rhai a allai gael anhawster i ennill y cymwysterau newydd ond sy'n weithwyr gofal rhagorol, gan barhau i godi safonau ond nid ar draul colli gweithwyr proffesiynol gwerthfawr.

Mewn ymateb, cynhaliwyd mwy na 100 o ddigwyddiadau ledled Cymru gan gyfarfod â mwy na 500 o bobl. Mae'r digwyddiadau wedi amrywio o sesiynau briffio ar gofrestru, a sesiynau hyfforddi i gyflogwyr i'w helpu i gefnogi eu staff, i weithdai lle gwnaeth gweithwyr gofal cartref gais i gofrestru ar y diwrnod. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd cyson yn nifer yr unigolion ar y Gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o gofrestru gwirfoddol, sy'n arwydd bod y gweithgarwch codi ymwybyddiaeth wedi dod â manteision gwirioneddol. Mae nifer o sefydliadau, ar ôl cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd gennym, wedi rhoi cynlluniau ar waith i gyflwyno cofrestru i'w staff erbyn hyn.

Ynghyd â'r ymgysylltu hwn, cynhyrchwyd amrywiaeth o ddeunyddiau i helpu i gefnogi'r sector. Maent yn cynnwys:

- fideos astudiaeth achos gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, pobl gofrestredig a chyflogwyr
- fideo a chyflwyniad 'sut i' sy'n egluro'r broses gofrestru
- apiau cofrestru, canllawiau ymarfer a'r *Côd i Gyflogwyr*.

Wrth ymateb i bryderon y sectorau ynghylch y cymwysterau, cynlluniwyd tri llwybr cofrestru ar gyfer y gweithwyr gofal cartref. Sicrhawyd ein bod yn cydbwyso ein rôl diogelu'r cyhoedd gyda'n rôl yn cefnogi proffesiynoli'r gweithlu.

### Gweithwyr gofal cartref – tri llwybr i gofrestru

**Oes gennych chi un o'r cymwysterau canlynol?**

- Lefel 2 neu 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol (Diploma, FfCCh neu NVQ) neu gymhwyster cywerth (gwelwch y fframwaith cymwysterau)
- Dyfarniad Lefel 2 mewn sefydlu gofal cymdeithasol (Cymru) (ar gael tan fis Medi 2019)

**Oes**

**Llwybr 1:**

Ewch ymlaen i gofrestru

**Nac oes**

**Ydych chi wedi gweithio mewn rôl gofal cartref am dri allan o'r pum mlynedd diwethaf?**

**Ydw**

**Llwybr 2:**

Bydd eich rheolwr yn eich asesu yn erbyn y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer cofrestru ac yn dyroddi datganiad, wedi'i lofnodi, sy'n cadarnhau eich bod chi'n ymarferwr cyfreithlon, diogel ac effeithiol

Ewch ymlaen i gofrestru

**Nac ydw**

**Llwybr 3:**

Cwblhau'n llwyddiannus cwrs ar-lein Gofal Cymdeithasol Cymru ar werthoedd ac egwyddorion (oedolion neu blant a phobl ifanc)

Ewch ymlaen i gofrestru

**Mae'r Gofrestr ar agor i weithwyr gofal cartref erbyn hyn:**

**1,529**

o'r rhain wedi'u gofrestru ar 31 Mawrth 2019

**Mae rhannau eraill o'r gofrestr yn aros yn sefydlog i raddau helaeth:**

**13,683**

nifer y personau cofrestredig ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol ar 31 Mawrth 2019

**Gadawodd 899 (7.8%) o bersonau cofrestredig y Gofrestr, sef gostyngiad o 338 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol**

> **"Wrth lunio'r tri llwybr cofrestru hyn, ein prif ystyriaeth oedd sicrhau ansawdd y gofal i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth gan weithwyr gofal cartref, ond gan ystyried hefyd anghenion cyflogwyr a gwahanol amgylchiadau'r rhai sy'n gweithio yn y rolau hyn ar hyn o bryd."**
>
> **Sue Evans, ein Prif Weithredwr**

## Addasrwydd i ymarfer

Dim ond cyfran fach iawn o'r personau cofrestredig sy'n ymddangos gerbron gwrandawiad addasrwydd i ymarfer terfynol, sy'n dangos bod y mwyafrif yn gweithio yn unol â'r safonau gofynnol fel y'u hamlinellir yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Nod ein proses addasrwydd i ymarfer yw diogelu'r cyhoedd rhag y rhai hynny nad ydynt yn addas i ymarfer a sicrhau bod y gweithlu'n ymarfer i'r safonau uchaf. Os bydd gweithiwr yn methu â bodloni'r safonau hyn gellir ei ddileu o'r Gofrestr, sy'n golygu na fyddant yn gallu ymarfer yng Nghymru. Ym mhob achos, ein nod yw cyrraedd y canlyniad sy'n amddiffyn y cyhoedd orau ar y cyfle cyntaf posibl.

Mae natur yr atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a dderbyniwn yn eang – er enghraifft, camddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, camgymeriadau o ran meddyginiaeth, a methiant i asesu, cofnodi neu ymweld â phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth. Defnyddir canlyniadau ein hymchwiliadau a'n gwrandawiadau i gefnogi gwelliant parhaus yn y sector.



**18**
**gwrandawiad terfynol a gynhaliwyd**

**10**
**o bobl wedi'u tynnu o'r Gofrestr**

O'r 10 a ymddangosodd gerbron gwrandawiad terfynol ac a ddilëwyd o'r Gofrestr, roedd pump yn weithwyr gofal preswyl i blant, roedd tri yn rheolwyr cartrefi gofal i oedolion, a dau yn weithwyr cymdeithasol.

**212** nifer y personau cofrestredig y derbyniwyd honiadau yn eu cylch a oedd yn amau eu haddasrwydd i ymarfer a'u haddasrwydd i barhau ar y Gofrestr

**132 (62%)** o atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phersonau cofrestredig a oedd yn destun prosesau disgyblu

**50%** o atgyfeiriadau gan y gweithlu gofal preswyl i blant, y nifer uchaf o atgyfeiriadau

| Atgyfeiriadau gweithwyr cymdeithasol cofrestredig | |
|---|---|
| 0.7% | 2018-19 |
| 1% | 2017-18 |
| 2% | 2016-17 |
| 1.7% | 2015-16 |
| 1.8% | 2014-15 |

# Gweithio gyda chi i fod yn effeithiol

### *Strategaeth a llywodraethu*

Gwnaethom ymrwymiad yn ein *Cynllun Strategol 2017-2022* i roi tystiolaeth ac adrodd ar ein heffaith o ran cyflawni. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd ein *Hadroddiad effaith* cyntaf sydd wedi'i lawrlwytho bron 600 o weithiau. Rydym yn adolygu ac yn mireinio ein dangosyddion perfformiad hefyd er mwyn gwella'r ffordd rydym yn dangos ein cyfraniad at y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Cawsom ein cynnwys yn *Adolygiad yr Arglwydd Holmes* fel enghraifft gadarnhaol o sefydliad a chanddo Fwrdd amrywiol a chynrychiadol, gan gydnabod proses recriwtio arloesol y Bwrdd. Mae llwyddiant ein dull o weithredu wedi arwain at Fwrdd amrywiol o 14 o bobl y mae 57 y cant ohonynt yn fenywod, tri yn anabl a'u hoedrannau'n amrywio o bobl yn eu 30au i bobl yn eu 70au.

Gyda'n Cadeirydd, Arwel Ellis Owen OBE, yn dod i ddiwedd ei gyfnod yn y swydd ym mis Gorffennaf 2019, rydym wedi recriwtio Caderiydd newydd a bydd dau aelod Bwrdd newydd yn cychwyn ei therm yn Orffennaf 2019.

Gellir gweld mwy ar ein heffeithiolrwydd a chyflawniadau llywodraethu yn ein datganiad llywodraethu ar dudalen 21.



## Llesiant staff

Fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn y ffordd rydym yn gweithio gyda'r sector a sut rydym yn gweithio o fewn y sefydliad

### Gweithlu presennol




**71%**



**29%**

### Recriwtio



Recriwtio i **27** o swyddi

### Cadw

**8.5%**
Trosiant staff

**3.73%**
Cyfradd absenoldeb salwch

## *Ymgysylltu a chyfathrebu*

Mis Ebrill diwethaf, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth ymgysylltu ar gyfer 2018-2022 ac, yn dilyn hynny, cynllun gweithgarwch manwl i'w roi ar waith. Canolbwyntiodd y cynllun ar:

- y rhanddeiliaid y dylem ymgysylltu â nhw
- lefel yr ymgysylltu
- y dulliau ar gyfer ymgysylltu a sut y byddent yn cael eu gwerthuso
- canlyniadau dymunol.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiwyd yn fwy ar wahanol lefelau o ymgysylltu dwy ffordd yn hytrach na chyflwyno gwybodaeth i'n cynulleidfaoedd drwy gyfathrebu. Rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu partneriaethau a gwneud y gwaith sylfaenol hanfodol er mwyn cynllunio prosiectau mawr, hirdymor.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- ein gwaith cynnar gydag AaGIC ar ddatblygu strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
- ein cydweithrediad â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i drefnu Cynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol 2018
- ein gwaith gyda chymwysterau Cymru, AaGCIW, consortiwm CBAC a City & Guilds, a phartneriaid eraill i ddatblygu a chyflwyno cymwysterau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant newydd o fis Medi 2019 ymlaen
- cydweithio â'r byrddau diogelu lleol i ddatblygu fersiwn ddigidol o'r gweithdrefnau diogelu cenedlaethol newydd ar gyfer plant ac oedolion
- datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth ymchwil a datblygu
- ffigurau'n dangos bod mwy a mwy o'n rhanddeiliaid yn ymgysylltu â ni'n ddigidol erbyn hyn. Er enghraifft, mae cyfartaledd o bron 124,000 o ymweliadau tudalen wedi'u cofnodi ar gyfer y wefan bob mis, gyda thua 10,000 o adnoddau'n cael eu lawrlwytho. Disgwylir i'r ffigurau hyn gynyddu wrth i fwy o weithwyr gofal cartref ymuno â'r Gofrestr.

**99,615**
adnodd wedi ei lawrlwytho oddi ar y wefan

**10%**
o'r adnoddau a lawrlwythwyd yw'r *Côd Ymarfer Proffesiynol*

**4,500**
dilynwyr ar *Twitter*

Cyrhaeddodd y *tweet* a berfformiodd orau
**38,818**

Cyrhaeddiad ein neges fwyaf poblogaidd ar *Facebook*
**11,978**

**4,713**
Defnyddwyr cyfrif Man Dysgu

## Datblygu'r gweithlu

Rydym am i Gymru gael gweithlu gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant digonol, medrus o ansawdd uchel

## Strategaeth y gweithlu

Uchelgais *Cymru Iachach* yw bod y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd fel na fydd pobl sy'n eu defnyddio yn sylwi pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan sefydliadau gwahanol. Bydd system ddi-dor o ofal iechyd a gofal cymdeithasol angen gweithlu sy'n darparu'r gofal gorau, waeth pwy sy'n cael eu cyflogi ganddynt ac ymhle y maent wedi'u lleoli.

Mewn ymateb i hyn, rydym wedi cynllunio cynllun ymgysylltu cadarn a chynhwysfawr i ddatblygu strategaeth gweithlu gofal cymdeithasol ar gyfer Cymru am y tro cyntaf. Bydd y wybodaeth a gasglwyd eleni yn arwain at ddatblygu strategaeth ddrafft ar gyfer y gweithlu, a fydd yn barod ar gyfer ymgynghori yn haf 2019 a'i chyhoeddi ddiwedd yr hydref.

Rydym wedi drafftio dau adroddiad ar:

- broffil y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
- polisi a bwriad strategol y dyfodol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

**"Mae strategaeth y gweithlu'n gyfle i ni fod yn uchelgeisiol ac yn flaengar yn y ffordd rydym yn datblygu ein gweithlu presennol ac yn y dyfodol, gan wneud yn siŵr ein bod yn rhoi lle canolog i les a phrofiad staff yn ein cynigion."**

**Alex Howells,**
**Prif Weithredwr AaGIC**

**40+**
cyfarfodydd grŵp cyfoedion

**40+**
cyfweliadau 1:1 gyda rhanddeiliaid

**2**
weminar

**14**
gweithdai ledled Cymru

arolwg ar-lein





## Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a sefydliadau ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, dysgu seiliedig ar waith a darparwyr addysg bellach, datblygwyd a lansiwyd *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol*. Mae'r fframwaith sefydlu yn cynnwys yr egwyddorion a'r gwerthoedd, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr i gyflawni eu gwaith yn gymwys yn ystod chwe mis cyntaf eu cyflogaeth. Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gweithio'n agos ar hyn o bryd gyda chydweithwyr ym maes gofal cymdeithasol ar beilot i ddatblygu dulliau a rennir o ddarparu hyfforddiant i gefnogi'r broses o weithredu'r fframwaith sefydlu.

## Fframwaith sefydlu ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant

Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, fe wnaethom adnewyddu'r fframwaith sefydlu hefyd i gefnogi proses sefydlu sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Lansiwyd hwn gan y Gweinidog ym mis Hydref 2018 gyda chyfres o adnoddau ar-lein sydd ar gael drwy ein gwefan. Bydd y fframwaith hwn yn darparu strwythur cadarn ar gyfer sefydlu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant, ac mae'n dangos yn glir i weithwyr newydd pa wybodaeth a sgiliau y bydd angen iddynt eu dangos yn ystod eu chwe mis cyntaf mewn cyflogaeth. Bydd hyn yn creu sylfaen gadarn i helpu gweithwyr newydd ddatblygu eu harferion a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, yn ac ar draws y sectorau blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'n rhoi meincnod clir i gyflogwyr hefyd o'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd proffesiynol sydd angen i weithwyr newydd eu dangos i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gymwys i ymarfer, yn ystod y cam hwn o'u datblygiad.

## Camu Ymlaen i Reoli

Yn ystod 2018-2019, bu 200 o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen i ddarpar reolwyr o'r enw Camu Ymlaen i Reoli. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru, cyflwynwyd seremoni wobrwyo ar y cyd i fwy na 80 o ddysgwyr a oedd wedi ennill y dyfarniad yn ystod y cyfnod hwn. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer seremoni debyg ym mis Rhagfyr 2019 i gydnabod gweddill y dysgwyr. Rydym wrthi'n cynnal ymchwil hefyd i ddeall cyrchfan graddedigion mewn swyddi rheoli a fydd yn cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2020.

## Rhaglenni datblygu cenedlaethol

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr mewn awdurdodau lleol drwy gyflwyno rhaglenni rheoli hyfforddiant a dysgu mewn swyddi strategol, canol a rheolwr tîm. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar greu amgylcheddau dysgu, myfyriol a datrys problemau i staff.

**"Yn gyffredinol mae bod yn uwch-reolwr yn golygu nad oes gennych chi fawr o amser i oedi a myfyrio. Cryfder y rhaglen i mi oedd dod ynghyd gyda chymheiriaid i rannu materion, datrys problemau ac adeiladu rhwydwaith cefnogol ac effeithiol parhaus."**

**"Fel Rheolwr Tîm newydd ei benodi mae'r rhaglen hon yn fy helpu i lunio fy arddull reoli a chanolbwyntio fy syniadau ar lunio'r tîm."**

**"Mae'n bleserus ac yn procio'r meddwl. Wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae'r hwyluswyr yn creu amgylchedd dysgu."**

**"Gwnaeth cwblhau Camu Ymlaen i Reoli wella fy ngwybodaeth, a rhoddodd hyn yr hyder i mi wneud cais am swyddi uwch."**

**"Ar ôl cwbwlhau Camu Ymlaen i Reoli, fe symudais ymlaen o fod yn weithiwr gofal i uwch weithiwr gofal, ac rwy'n ddirpwry reolwr erbyn hyn. Rwy'n credu bod fy nghynnydd yn ganlyniad i gwblhau'r cwrs Camu Ymlaen i Reoli."**

## Atyniad a recriwtio – ymgyrch Gofalwn

Er mwyn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau gofal a rhoi cymorth i gymunedau ledled y wlad, bydd Cymru angen miloedd yn fwy o bobl i weithio mewn swyddi gofalu gydag oedolion a phlant erbyn 2030. Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda sefydliadau o bob rhan o'r maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant i lansio ymgyrch genedlaethol o'r enw Gofalwn (www.gofalwn.cymru).

Mae'r ymgyrch yn gydweithrediad rhwng sefydliadau blaenllaw sy'n cynrychioli ein sector, yn ogystal â chyrff cenedlaethol sy'n ymwneud â chyngor gyrfaoedd a chwilio am swyddi.

Mae'n rhan o strategaeth hirdymor i ddenu a chadw'r bobl sydd â'r sgiliau priodol i ddarparu gofal a chymorth di-dor o safon uchel i bobl Cymru. Mae'r ymgyrch yn amlygu ehangder y cyfleoedd gyrfaol ym maes gofal, o warchodwyr plant ac ymarferwyr meithrin i gydlynwyr gofal cartref a rheolwyr cartrefi gofal.

**"Mae PACEY Cymru wedi cefnogi datblygiad ymgyrch Gofalwn ac yn parhau i weithio'n agos i hyrwyddo'r ymgyrch yn dilyn y lansiad. Rydym wedi cynnwys hyn yn ein cynllun cyfathrebu ar gyfer y misoedd sydd i ddod ac mae'r gwaith ymgysylltu hyd yma wedi bod yn gryf. Mae'r fideos a gynhyrchwyd yn ysbrydoli eraill, yn ogystal â hyrwyddo'r swyddi i'r rhai sy'n ystyried ymuno â'r sector. Mae hefyd wedi creu ymdeimlad o falchder yn eu swydd gan y rhai sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd. Chwaraewyd y fideos yn ein digwyddiad gwarchodwyr plant diweddar yng Nghaerdydd ac fe gawsant dderbyniad hynod o dda."**

**(PACEY Cymru)**

**"Pa ffordd well i ddangos pa mor foddhaus ac amrywiol yw gyrfa ym maes gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, na gweld pobl yn rhannu eu profiadau go iawn yn ymgyrch Gofalwn yng Nghymru."**

**Jonathan Griffiths (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro ac arweinydd gweithlu ADSS Cymru)**

## Ystadegau'r ymgyrch Gofalwn

Amcangyfrif o'r cyrhaeddiad ar gyfer y newyddion a gawsom yw ychydig o dan **4 miliwn**

**9** darn unigol wedi ei ddarlledu

**29** darnau o ddarllediadau print

**2,507** ymgysylltiadau uniongyrchol â'r cyfryngau cymdeithasol

**798** dilynwyr/ wedi hoffi ar draws pob sianel

**3,347** golygfeydd fideo ar draws pob sianel – gyda *Twitter* (@GofalwnCymru) yn ennill y mwyaf golygfeydd fideo

Mae *hashtag* #WeCareWales a #GofalwnCymru wedi cael ei ddefnyddio mewn **127** post


## Cymraeg Gwaith

Rydym yn parhau i gefnogi'r gweithlu wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddwyieithrwydd i'w helpu darparu gofal o ansawdd uchel i bobl yn eu dewis iaith. Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar raglen i helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd drwy gefnogi mwy na 170 o ddysgwyr i ddilyn cyrsiau iaith Gymraeg naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Byddwn yn gwerthuso effaith y rhaglen hwn ar ddechrau 2019-2020.

## Buddsoddi yn y gweithlu

Buddsoddwyd £10.9 miliwn i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol, fel bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r dull gweithredu cywir i ddarparu gofal a chymorth da.

Roedd hyn yn cynnwys £7.13 miliwn a dalwyd i awdurdodau lleol drwy Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP), gyda £3.06 miliwn o gyllid awdurdodau lleol fel arian cyfatebol. Mae'r awdurdodau lleol hefyd wedi buddsoddi £2.69 miliwn arall i ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu.



**5,670** o bobl yn ymwneud â gwobrau


**1,881** wedi derbyn gwobr

**3,486** yn parhau i 2019-20

**303** wedi tynnu allan



**20** awdurdod lleol yn noddi myfyrwyr gradd gwaith cymdeithasol



**132,834** o lefydd hyfforddi wedi'u gynnig

**107,031** o lefydd hyfforddi wedi'u dderbyn

**81%** oedd y cyfartaledd presenoldeb



**77,341** o lefydd wedi mynd i'r sector statudol

**16,466** o lefydd wedi mynd i'r sector preifat

**3,734** o lefydd wedi mynd i'r trydydd sector

## Arwain a chefnogi gwelliant

Rydym eisiau gwell canlyniadau i blant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr

### Fframwaith gwella

Mae cydnabod gwelliant yn fater i bawb ac mae'n golygu bod gofyn i ni a'n partneriaid weithio'n wahanol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi llunio ein *Fframwaith gwella* sy'n dangos sut byddwn yn cyflawni ein nod o arwain a chefnogi gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn gwneud ein holl waith gwella mewn partneriaeth. Mewn rhai meysydd, rydym yn cyflawni gwaith arweiniol ar lefel genedlaethol i gefnogi gwelliannau i wasanaethau, ac mewn meysydd eraill rydym yn cyflawni rôl gefnogol, rôl ddylanwadu neu un gydweithredol. Mae pob un ohonynt yr un mor bwysig â'i gilydd.

### Gofal a Chymorth yn y Cartref

Yn ein trydedd flwyddyn o arwain y gwaith o weithredu'r *Cynllun Strategol Gofal a Chymorth yn y Cartref*, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu a chynnal ein partneriaethau, gan fod y cynllun yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu, ac yn cysylltu â mwy na 20 o raglenni gwaith perthnasol sy'n effeithio ar ofal a chymorth yn y cartref. Fe wnaethom feithrin dysgu a rennir a chefnogi cynnydd a gwelliant drwy roi cyfleoedd i randdeiliaid rannu eu llwyddiannau, eu heriau a'u dysgu drwy'r grwpiau sy'n goruchwylio ac yn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae'r tri is-grŵp sy'n canolbwyntio ar gomisiynu, y gweithlu a'r cymorth a ddarperir gan ofalwyr a chymunedau wedi parhau i gyfarfod, ac mae'r cadeiryddion yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau dull cyson sy'n parhau'n gredadwy gyda ffocws iddo.

### Dementia

Rydym yn aelod gweithgar o'r grŵp cenedlaethol sy'n goruchwylio Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar Ddementia. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Alzheimer a phartneriaid eraill i ddatblygu'r camau dysgu a datblygu. Yn ystod y flwyddyn cawsom y dasg o sefydlu is-grŵp i ganolbwyntio ar y gweithlu. Un o'r darnau cyntaf o waith y byddwn yn bwrw ymlaen â hi yn 2019-20 yw deall pa hyfforddiant dementia sy'n cael ei ddarparu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, fel y gallwn adeiladu ar yr adnoddau presennol a'u cysoni.

### Cefnogi'r newid i waith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Mewn partneriaeth ag Achieving Sustainable Change (ASC) Ltd, rydym wedi cynnig cymorth datblygu sgiliau i wasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid. Er mwyn rhoi unigolion a theuluoedd wrth wraidd ein gwasanaethau gofal a chymorth, mae angen newid diwylliant nid yn unig gan weithwyr rheng flaen, ond hefyd gan eu sefydliadau ac uwch arweinwyr yn enwedig. Rhaglen waith hirdymor yw hon i gefnogi'r newid sydd ei angen, sydd wrth wraidd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gwerthusiad ffurfiol o'r rhaglen yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

### Ymchwilio i brofiad plant a phobl ifanc mewn llety diogel

Cynhaliwyd darn o waith i'n helpu ni i ddeall lleisiau a phrofiadau plant yn well ac i helpu i lywio datblygiad polisi ac ymarfer yng Nghymru. Rydym wedi gweithio ac ymgysylltu â nifer o sefydliadau, ac yn bwysicaf oll â phobl ifanc sydd wedi byw mewn llety diogel. Mae rhai negeseuon cryf am eu profiadau a fydd yn cyrraedd llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

## Strategaeth ymchwil a datblygu gofal cymdeithasol i Gymru

Yn dilyn lansio *Strategaeth ymchwil a datblygu Gofal Cymdeithasol i Gymru 2018-2023* ar ddiwedd 2017-18, aethom ati eleni i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a sefydlu cynllun i'w gweithredu.

Ein rôl yw arwain Grŵp Gweithredu'r Strategaeth, sy'n cynnwys partneriaid o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru. Gyda'n gilydd rydym wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i'n helpu ni i roi'r strategaeth ymchwil a datblygu ar waith.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu a chryfhau ein trefniadau partneriaeth strategol gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn ogystal, trwy fentrau newydd, rydym wedi meithrin cysylltiadau newydd o ran ymchwil gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol, ac academyddion ledled prifysgolion Cymru.




## Set Ddata Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol

Cyhoeddwyd ein Set Ddata Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn sy'n ceisio dod â data gofal cymdeithasol ynghyd mewn un man er mwyn rhoi darlun o sut mae'r sector gofal cymdeithasol yn perfformio yng Nghymru. Yn 2018-19, sefydlwyd grŵp cynghori, gan ddod â phartneriaid o ofal cymdeithasol at ei gilydd i'n helpu i gynllunio a datblygu'r set ddata. Buom yn gweithio'n agos gyda Data Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau bod data ar gael ar nifer o wasanaethau gofal a chymorth a reoleiddir yng Nghymru fesul awdurdod lleol.

Ym mis Mawrth 2019, ailgyhoeddwyd data gwariant awdurdodau lleol o StatsCymru yn y set ddata. Rydym wedi parhau i ddatblygu'r set ddata megis gwybodaeth am ddiagnosis iechyd ar gyfer dementia, iechyd meddwl ac anableddau dysgu o ddata'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau. Rydym wedi datblygu prototeip hefyd o'r ffordd y gellid datblygu'r set ddata i wella ei hymarferoldeb. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r set ddata gyda phartneriaid yn 2019-20 i'n helpu ni i ddeall pa ystadegau eraill sydd eu hangen a pha ddadansoddiad o'r ystadegau cyfredol y dylid ei wneud.

Yn ogystal, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a Data Cymru i drosglwyddo Daffodil Cymru i ni. Adnodd ar-lein yw Daffodil Cymru sy'n nodi'r galw posibl am wasanaethau gofal a chymorth yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth y dyfodol o bobl sy'n byw gydag amrywiaeth o gyflyrau iechyd.



# Adroddiad atebolrwydd
## Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y cyfarwyddwyr

#### Hanes a chefndir statudol

Cafodd Cyngor Gofal Cymru ei ailenwi'n Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2017 yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) 2016 a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn fydd yr ail i'w baratoi fel Gofal Cymdeithasol Cymru.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon o dan Atodlen 1, Rhan 6, Paragraff 16 (1-3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016; fe'i cyflwynir mewn ffurf a gyfeiriwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

#### Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd Sue Evans.

#### Aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru

Ar 31 Mawrth 2019, roedd tri ar ddeg o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol gydag un aelod yn gadael cyn 31 Mawrth 2019.

#### Aelodau'n gwasanaethu ar 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019

**Aelodau**
Arwel Ellis Owen (Chair)
Abigail Harris
Aled Roberts (term ended 28 March 2019)
Carl Cooper
Damian Bridgeman
Donna Hutton
Emma Britton
Grace Quantock
Joanne Kember
Jane Moore
Kate Hawkins
Peter Max
Rhian Watcyn Jones
Simon Burch

Daw tymor y Cadeirydd i ben ar 31 Gorffennaf 2019. Roedd pob aelod arall yn gweithredu ar 1 Ebrill 2018 a byddant yn gwasanaethu am dymor o bedair blynedd gyda'u tymor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Yn ogystal, roedd Andrew Bellamy yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg gydol y flwyddyn ariannol gyda'i dymor yn dod i ben ar y 31 Mawrth 2019.

Mae cofrestr o fuddiannau datganedig aelodau ar ein gwefan.

Yn unol ag arfer gorau ac arweiniad, sefydlodd Gofal Cymdeithasol Cymru Bwyllgor Archwilio a risg ar adeg ei greu. Daw'r aelodaeth o Aelodau'r Bwrdd ag aelod annibynnol cyfetholedig. Mae cynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn mynychu'r cyfarfodydd.

Yn 2018-19, gwnaethom hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth am un achos o dorri rheolau data personol. Yn 2017-18, ni hysbyswyd y Comisiynydd Gwybodaeth o unrhyw achosion o dorri rheolau data.

## Datganiad o gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Prif Weithredwr

O dan Atodlen 2, Rhan 6 Paragraff Adran 18 (1-2) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru baratoi cyfriflen ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y cyfryw ffurf ac ar y sail cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o amgylchiadau Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddiwedd y cyfnod, ac o'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian ar gyfer y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson

- ffurfio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol

- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol a

- pharatoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei fod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Gofal Cymdeithasol Cymru, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod amdani, a fy mod wedi cymryd pob cam i sicrhau fy mod yn ymwybodol o ddod i wybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod yr archwilwyr yn gwybod am y wybodaeth honno.

Rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yr wyf yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac am y barnau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

**Sue Evans**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 24 Gorffennaf 2019

# Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn amlinellu:


- y sail y cawsom ein sefydlu
- y modd y cawn ei lywodraethu a'n reoli
- a sut, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol am yr hyn a wnaf.

## Ein sefydliad

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gwblhau blaenoriaethau penodol a nodir yn flynyddol drwy lythyr cylch gwaith.

Fe'n sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru (Cymru) 2016 ym mis Ebrill 2017 i "barhau â gwaith a wnaed cyn hynny gan y Cyngor Gofal, sef rheoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yr un pryd ymgymryd â chyfrifoldeb newydd dros arwain gwelliant ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau cynghori ar ymchwil ym maes gofal cymdeithasol, i arddangos arferion gorau."

Mae ein cynllun busnes blynyddol yn nodi'n fanylach y gweithgareddau a nodwyd gennym i gefnogi'r nodau hyn yn ystod 2018-2019. Mae'n perfformiad yn cael ei archwilio'n fanwl gan ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru bob chwarter drwy gydol y flwyddyn.








## Ein strwythur llywodraethu ac atebolrwydd

Dyma'n fframwaith llywodraethu:





**Cytundebau:** Protocolau rhannu data, memorandwm cyd-ddealltwriaeth

**Rheoliadau/Deddfwriaeth:** Iechyd a diogelwch; cydraddoldeb; y Gymraeg; rhyddid gwybodaeth; Deddf Diogelu Data; cynllun cyhoeddi

## Atebolrwydd

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn atebol i'r trethdalwr ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gwaith yn cyflawni gwerth am arian. Mae ein fframwaith atebolrwydd ar gyfer y Bwrdd a'm rôl Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu wedi'i fapio isod.




Yn ystod y flwyddyn, dyma'r camau a gymerwyd gennym i sicrhau ein hatebolrwydd:

- Wnaeth ein Tîm Rheoli Gweithredol cwrdd â chynrychiolwyr o'n hadran noddi yn Llywodraeth Cymru bob tri mis i fynd trwy berfformiad ein cynllun busnes a'n gwariant cyllideb hyd yma
- Cefais cyfarfodydd rheolaidd gyda'n Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
- Mynychodd y Cadeirydd a minnau ein cyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd
- Cafodd ein Bwrdd ei gyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ym mis Hydref 2018

Ym mis Rhagfyr 2018, penodwyd Julie Morgan yn Ddirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ddisodli Huw Irranca-Davies, y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol. Gwnaed trefniadau i mi gyfarfod â'n Gweinidog newydd cyn gynted â phosibl.

## Ein Bwrdd a'n pwyllgorau

Mae gennym Gadeirydd ac 13 aelod Bwrdd, sy'n gyfrifol am ddarparu arweiniad a chyfeiriad i ni. Maent yn gweithio'n agos â'n Tîm Rheoli Gweithredol i lunio'n cynlluniau strategol a busnes, dyrannu ein hadnoddau a monitro ein perfformiad.

Craffir ar ein gwaith, ei lywio a'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

Mae'r diagram isod yn dangos strwythur ein Bwrdd a'n pwyllgorau ar 31 Mawrth 2019:

**Bwrdd**

- darparu arweiniad a chyfeiriad drwy lunio ein cynllun strategol a busnes
- craffu ar adnoddau a pherfformiad – drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd ar y cynlluniau busnes
- arddel safonau llywodraethu corfforaethol uchel -cytuno ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd a'r pwyllgorau
- derbyn negeseuon allweddol a chyngor gan y Tîm Rheoli Gweithredol

**Pwyllgor Gwella**

Cynghori'r Bwrdd ar:

- strategaethau a pholisïau sy'n gysylltiedig ag egwyddorion buddsoddi, gwella; a rhaglenni dysgu a datblygu cenedlaethol
- sicrhau ansawdd y rhaglenni ymchwil, datblygu a gwella
- gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Pwyllgor Archwilio a Risg**

Cynghori'r Bwrdd ar:

- pa mor effeithiol yw trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu
- uniondeb yr *Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon*
- pa mor ddigonol yw ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan waith archwilio
- sicrwydd sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y Bwrdd
- penodi darpariaeth Archwilio Mewnol ac adolygu pa mor effeithiol ydyw bob blwyddyn

**Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau**

Cynghori'r Bwrdd ar:

- strategaethau a pholisïau yn enwedig o ran cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol a materion addasrwydd i ymarfer cysylltiedig
- sicrhau ansawdd y rhaglen rheoleiddio hyfforddiant a derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion rheoleiddio
- goblygiadau datblygiadau ym maes rheoleiddio a sut y gallai'r rhain effeithio ar gyfrifoldebau'r Bwrdd
- gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Pwyllgor Cyflogau a Llesiant**

Cynghori'r Bwrdd ar:

- faterion sy'n ymwneud ag adolygu cyflog y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr, ac ystyried argymhellion cylch gwaith cyflog blynyddol y staff yn unol â pholisi Gofal Cymdeithasol Cymru
- data ymgysylltu â gweithwyr, llywodraethu AD a pholisi allweddol drwy graffu ar berfformiad

## Datblygiad a gwaith ymgysylltu'r Bwrdd

Yn dilyn ymlaen o flwyddyn gyntaf ein haelodau Bwrdd, cynhaliwyd cyfres o seminarau yn ystod 2018-19 i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd aelodau'r Bwrdd weithdai a sesiynau briffio ar:

- lywodraethu da yn y sector cyhoeddus (Brian Whalley, Coleg y Gwasanaeth Sifil)
- cefnogi swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu fframwaith craffu (Helen Morgan, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)
- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Siwan Tomos, Iaith.org)
- model cymdeithasol anabledd a deddfwriaeth cydraddoldeb (Miranda Evans, Anabledd Cymru)
- GDPR a diogelwch seiber (Naomi Korn Associates)
- ein 18 mis cyntaf, myfyrdod a'r camau nesaf (wedi'i hwyluso gan David Hain gyda chyfraniadau gan Haydn Llewellyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)

Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn Hydref 2018 a Chonwy yn Ionawr 2019. Rhoddodd gyfle i aelodau'n Bwrdd gyfarfod â'n hawdurdodau lleol a'n partneriaid yn y trydydd sector, yn ogystal ag ymarferwyr ac unigolion sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Roedd y digwyddiad RhCT yn arddangos prosiectau a ddatblygwyd gan ddefnyddio grantiau hwyluso rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth. Tra datblygwyd digwyddiad Conwy ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Conwy a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gan ganolbwyntio ar y sbardunau, yr heriau a ffyrdd arloesol o oresgyn yr heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

Gan ein bod yn sefydliad sy'n dysgu, rydym yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd ein polisïau, ein prosesau a'n cyfarfodydd. Yn ystod Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019, gofynnwyd i holl aelodau'r pwyllgor lenwi holiadur eang i lywio'r camau ar gyfer gwella'n barhaus. Roedd cwestiynau'r arolwg yn ymwneud â'r canlynol:

- aelodaeth, annibyniaeth, gwrthrychedd a dealltwriaeth
- sgiliau
- rôl a chwmpas y pwyllgor
- cyfathrebu ac adrodd
- effeithiolrwydd cyfarfodydd.

Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg ar gyfer pob Pwyllgor yn gadarnhaol, yn amrywio rhwng 71 y cant ac 85 y cant. Cafodd y canlyniadau eu coladu a'u cyflwyno i'r pwyllgorau i'w trafod yn eu cyfarfodydd yn y gwanwyn a byddant yn llywio'n cynllun datblygu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd holiadur tebyg yn cael ei ddosbarthu i bob aelod er mwyn ystyried pa mor effeithiol yw'r Bwrdd yn rhan cynharaf y flwyddyn ariannol newydd.

Mae effeithiolrwydd cyfarfodydd hefyd yn ymddangos fel eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod o'r Bwrdd a phwyllgorau, gyda'r cadeiryddion ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn gwahodd adborth yn ystod ac ar ôl bob cyfarfod.

Gofynnir am adborth hefyd ar sail un i un yn ystod arfarniadau blynyddol rhwng y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd. Mae unrhyw gamau gweithredu yna yn cael eu cyflwyno i naill ai Ysgrifennydd y Bwrdd neu i mi.

## Presenoldeb aelodau yng nghyfarfod y Bwrdd a phwyllgorau

Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu talu am yr hyn sy'n gyfwerth â dau ddiwrnod o waith y mis. Yn ogystal â'n 13 aelod a benodwyd yn gyhoeddus, mae Andrew Bellamy yn aelod annibynnol â chefndir ariannol sy'n cefnogi'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd yn nodi'r lefel presenoldeb disgwyliedig ar gyfer aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd, sef 60 y cant. Mae'r tabl isod yn dangos presenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn ystod 2018-19.

| Enw | Presenoldeb yn y Bwrdd % (5 cyfarfod) | Presenoldeb cyffredinol yn y cyfarfodydd (gan gynnwys Pwyllgorau) | Archwilio a Risg (allan o 4) | Gwella (allan o 4) | Rheoleiddio a Safonau (allan o 4) | Cyflogau a Llesiant (allan o 3) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arwel Ellis Owen | 100% | 17 o 20 = 85% | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Abigail Harris | 80% | 8 o 9 = 89% | | 4 | | |
| Aled Roberts | 100% | 12 o 13 = 92% | | 4 | 3 | |
| Andrew Bellamy (independent member) | d/b | 4 o 4 = 100% | 4 | | | |
| Carl Cooper | 100% | 11 o 12 = 92% | 3 | | | 3 |
| Damian Bridgeman | 60% | 7 o 9 = 78% | | 4 | | |
| Donna Hutton | 100% | 9 o 12 = 75% | | | 3 | 1 |
| Emma Britton | 100% | 8 o 9 = 89% | 3 | | | |
| Grace Quantock | 100% | 9 o 9 = 100% | | | 4 | |
| Jane Moore | 80% | 11 o 12 = 92% | | 4 | | 3 |
| Joanne Kember | 100% | 12 o 12 = 100% | | | 4 | 3 |
| Kate Hawkins | 80% | 8 o 9 = 89% | 4 | | | |
| Peter Max | 100% | 9 o 9 = 100% | | 4 | | |
| Rhian Watcyn Jones | 100% | 9 o 9 = 100% | 4 | | | |
| Simon Burch | 100% | 8 o 9 = 89% | | | 3 | |

## Effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cael sicrwydd bod ein hamcanion busnes a strategol yn cael eu cyflawni drwy gyfarfodydd ac adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau cyllideb a pherfformiad, a diweddariadau ar brosiectau. Rwy'n gweithredu 'polisi drws agored' lle gall unrhyw aelod o staff gysylltu â mi gydag unrhyw fater a allai beri pryder iddynt. Rwyf yn hyrwyddo'r Cyngor Partneriaeth Staff a'r Fforwm Staff hefyd fel ffordd o sicrhau ymgysylltu clir gyda staff ynghylch ein blaenoriaethau ar draws y sefydliad.

Rydym yn defnyddio cynllun dirprwyo a chyfarwyddiadau ariannol i gyflawni ein gwaith i sicrhau bod ein penderfyniadau'n briodol ac yn gymesur â lefel y risg gysylltiedig.

Rydym yn cynnal ac yn adolygu cofrestri buddiant ar gyfer gweithwyr ac aelodau'r Bwrdd hefyd er mwyn nodi unrhyw wrthdaro posibl neu ganfyddedig gyda'n prosesau gwneud penderfyniadau er mwyn i ni allu cymryd camau i'w lliniaru.

## Archwilio mewnol

Lluniwyd y *Cynllun archwilio mewnol* ar sail risg, a chytunwyd arno gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau (ariannol, corfforaethol a rheoleiddio'r gweithlu) o reoli mewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd saith archwiliad mewnol ar ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer:

| Maes | Lefel sicrwydd | Diffiniadau o lefel sicrwydd |
|---|---|---|
| Llywodraethu corfforaethol | Sylweddol | Mae'r fframwaith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ddigonol ac yn effeithiol |
| Rheoli risg | | |
| GDPR | | |
| Systemau ariannol – bancio a rheoli arian parod, rheolaeth gyllidebol ac asedau sefydlog | | |
| Mesurau rheoli cyffredinol TG | Cymedrol | Mae angen rhywfaint o welliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth |
| Rheoleiddio'r gweithlu – addasrwydd i ymarfer, cofrestru a gwrandawiadau | | |
| Systemau ariannol – cyfriflyfr cyffredinol, a thendro a chaffael | | |

Daeth yr archwilwyr mewnol, yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethant yn ystod y flwyddyn, i'r casgliad bod gennym system gadarn o reolaeth fewnol, a ddylai ddarparu **sicrwydd cymedrol** byddwn yn gallu cyflawni ein hamcanion.

## Archwilio allanol

Rydym yn derbyn Adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli sy'n adrodd ar y materion sy'n codi yn ystod yr archwiliad o'n datganiadau ariannol.

## Rheoli risg

Mae ein dull cadarnhaol o reoli risg yn golygu nad ydym yn edrych ar y risg o bethau'n mynd o chwith yn unig. Rydym yn edrych hefyd ar effaith peidio â manteisio ar gyfleoedd neu gryfderau corfforaethol.

Caiff ein cofrestr risg strategol ei hadolygu bob chwarter gan ein Tîm Rheoli Gweithredol ac wedyn bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu arni. Roedd y trosolwg o'n prif risgiau strategol yn ystod 2018-2019 yn ymwneud â:

| Teitl y risg | Cynhenid | Mehefin | Awst | Tachwedd | Chwerfror |
|---|---|---|---|---|---|
| Os nad yw rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr ynghylch y gweithlu cofrestredig yn effeithiol, bydd yna golli hyder. | Canolig | Isel | Isel | Isel | Isel |
| Os nad yw'r sector yn ymwneud â gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yna ni fyddwn yn gallu cyflawni ein nodau a'n gweithgareddau gan na allwn gyflawni'r rhain ar ein pen ein hunain. | Uchel | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig |
| Os nad ydym yn deall materion a realiti'r sector yna byddwn yn dadsefydlogi sector sydd eisoes yn fregus ac ni fydd ein cynnyrch yn addas i'r diben. | Canolig | Isel | Isel | | |
| Os nad ydym yn glir ynghylch y gwahaniaeth cadarnhaol y byddwn yn ei wneud yn y sector gofal a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru, byddwn yn colli hygrededd. | Canolig | Isel | Isel | Isel | Isel |
| Os bydd Llywodraeth Cymru yn dileu'r cyllid ar gyfer prentisiaethau lefel 2, yna bydd yn lleihau swm y cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni cymwysterau yn y sector. Bydd hyn yn cael effaith benodol ar y gweithlu gofal cartref sy'n cyflawni'r cymhwyster lefel 2 arfaethedig ar gyfer cofrestru. | Uchel | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig |
| Os nad yw'r cymwysterau'n addas i'r diben yna ni fyddant yn bodloni'r gofynion ar gyfer gofal a chymorth o ansawdd uchel yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. | Uchel | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig |
| Os na fydd y broses o uwchraddio system TG Scwonline yn llwyddiannus, bydd llai o hyder yn ein gallu i gynnal cofrestr gywir a sicrhau bod unigolion cofrestredig yn addas i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol. | Uchel | Canolig | Canolig | | |
| Os na fyddwn yn recriwtio Cadeirydd y Bwrdd a'r Cofrestrydd yna bydd gennym fylchau gwybodaeth mewn swyddi strategol allweddol yn y sefydliad. | Canolig | | | Canolig | Canolig |
| Os na chawn unrhyw gynnydd mewn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, yna mae angen i ni ystyried cynaliadwyedd ein cylch gwaith presennol. | Uchel | | | Uchel | Uchel |

Caiff risgiau gweithredol eu mesur yn unol ag argymhellion Llyfr Oren Trysorlys EM a chaiff y gofrestr o'r risgiau hyn ei hadolygu'n fisol gan yr uwch reolwyr.

## Llywodraethu gwybodaeth

Mae llywodraethu gwybodaeth yn cyfeirio at y mesurau rheoli effeithiol sydd gennym ar waith i reoli:

- casglu, rheoli a defnyddio gwybodaeth bersonol rydym yn creu, derbyn neu'n cael
- cylch bywyd ein cofnodion a'n gwybodaeth o greu neu dderbyn i waredu neu drosglwyddo
- diogelwch gwybodaeth.

Ers 13 Tachwedd 2001, rydym wedi cael ein cofrestru fel rheolydd data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Yn 2018-19, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth i rym ym Mai 2018:

- cynnal archwiliad gwybodaeth a gaiff ei adolygu yn y flwyddyn ariannol nesaf
- mapio'r modd y caiff data ei gasglu, ei storio a'i rannu – yn fewnol ac yn allanol
- cytuno ar brotocolau rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu ac Arolygiaeth Gofal Cymru
- adolygu ein systemau TG presennol a ddefnyddir i storio a phrosesu data personol o ran cydymffurfio â'r GDPR
- penodi Swyddog Diogelu Data i roi cyngor ar y polisi diogelu data ac ymarfer gorau
- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i'n gweithwyr, gyda 83 y cant wedi ei gwblhau hyd yn hyn.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein systemau TG y dyfodol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Rydym wedi gosod meddalwedd e-ddysgu i ddarparu hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn i'r staff sydd heb dderbyn yr hyfforddiant eto ac i ddechreuwyr newydd.

## Diogelwch gwybodaeth

Rydym wedi ein hachredu â ISO27001. Mae hyn yn golygu bod ein systemau rheoli diogelwch gwybodaeth yn seiliedig ar ymarfer gorau. Mae'n rhoi dull systematig i ni sy'n ein helpu i ddiogelu a rheoli'r wybodaeth a dderbyniwn wrth gyflawni ein gwaith drwy reoli risg yn effeithiol.

Mae ISO27001 yn rhoi dull i ni reoli digwyddiadau diogelwch. Yn ystod 2018-19, cofnodwyd 19 o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, chwe digwyddiad rhesymegol ac 13 corfforol. O'r 19 digwyddiad:

- cychwynnwyd dau gan drydydd parti a chawsom ein hysbysu fel rhan o ymarfer da
- roedd pump yn ymwneud â materion gweinydd neu feddalwedd a ffeilio cofnodion amhriodol
- roedd un yn ganlyniad i liniadur wedi'i amgryptio'n cael ei ddwyn o gar gweithiwr.

Cofnodwyd y digwyddiadau eraill hefyd fel achosion o dorri rheolau data. Roedd y mwyafrif wedi'u categoreiddio fel mân risgiau a risg isel i hawliau a rhyddid y gwrthrychau data dan sylw wrth i gamau priodol gael eu cymryd. Rydym wedi hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am un achos o dorri data personol ac wedi newid ein hymarfer yn dilyn ymchwiliad mewnol. Ni argymhellodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw ofynion ychwanegol.

Gan edrych ymlaen, rydym yn gweithio drwy fframwaith cydymffurfio GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 a byddwn yn gweithredu nifer o brosesau newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn gadarn Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar sut rydym yn integreiddio Asesiadau Effaith Diogelu Data i'n datblygiadau polisi, prosiectau a systemau.

## Chwythu'r chwiban

Rydym wedi ein rhestru o dan Orchymyn Personau Rhagnodedig 2014 fel sefydliad dynodedig y gall unrhyw weithiwr yn y sector gofal cymdeithasol fynd ato i adrodd am gamweddau honedig neu hysbys. Mae hyn yn cael ei alw'n 'chwythu'r chwiban' neu'n wneud datgeliad hefyd.

Fel person rhagnodedig, mae gennym nifer o ddyletswyddau, sydd wedi'u hamlinellu mewn canllawiau gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), ac un ohonynt yw adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a dderbyniwn.

Ni wnaethom adrodd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban i BEIS a Protect.org (Public Concern at Work gynt) am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Byddwn yn cyflwyno ein hadroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 i BEIS erbyn Hydref 2019.

**Sue Evans**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 24 Gorffennaf 2019

# Adroddiad ar gyflogau a staff

## Datganiad ar bolisi cyflogau

Hwn yw datganiad polisi cyflogau Gofal Cymdeithasol Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

Mae'r datganiad polisi cyflogau hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau a phenderfyniadau ar uwch gyflogau.

## Prif Swyddog Gweithredol

Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yw Sue Evans a oedd yn derbyn cyflog o £113,333 y flwyddyn yn 2018-19. Cost cyflog gros y Prif Weithredwr yn y cyfnod 2018-19 oedd £156,257 (2017-2018 - £151,429) sy'n cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr a chostau Pensiwn y Cyflogwyr.

## Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 14 o Aelodau Bwrdd yn cael eu harwain gan Gadeirydd lleyg, Arwel Ellis Owen. Penodwyd pob un ohonynt gan y Gweinidog, drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Nid yw tâl aelodau'r Bwrdd yn cynnwys pensiwn ac fe'i penderfynir gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn gwella tryloywder, datgelir cyflog Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn yr adroddiad hwn. Caiff aelodau'r Bwrdd dâl o £250 y dydd ac maent wedi ymrwymo i ddau ddiwrnod y mis.

## Staff Gofal Cymdeithasol Cymru

Caiff yr holl aelodau staff eu cyflogi gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cyflogau'r holl aelodau staff yn unol â chynllun y sefydliad ar gyfer cyflogau staff a threfniadau graddio a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004, ac mae'n gymwys yn gyfartal i bob aelod o staff.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys graddfa gyflog gyda dilyniant cyflog cynyddol yn ystod blynyddoedd cynnar cyflogaeth.

Mae'r dyfarniad tâl yn amodol ar drafodaeth â Chyngor Partneriaeth y Staff a chymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyflogau Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru yn flynyddol. Wrth benderfynu ar strategaethau cyflog, mae'r Bwrdd yn ystyried:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl alluog, gymwys ac addas o galibr uchel
- fforddiadwyedd cyffredinol
- arferion talu yn y sector cyhoeddus ehangach a sefydliadau cymharol
- rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol yn cynnwys gofynion cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu.

Mae'r adrannau canlynol yn yr Adroddiad ar Gyflogau a Staff yn destun archwiliad.

## Cydnabyddiaeth staff uwch

| Swyddogion | Cyflog (£000)* | | Buddion pensiwn (£) | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 | 2018-19 | 2017-18 |
| Cadeirydd<br>**Arwel Ellis Owen** | 25-30 | 25-30 | D/B | D/B | 25-30 | 25-30 |
| Prif Weithredwr<br>**Sue Evans** | 110-115 | 110-115 | 31,700 | 31,600 | 145-150 | 140-145 |
| Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth/(Dirprwy Brif Weithredwr)<br>**Gerald Evans**<br>(gadawodd 31 Mawrth 19) | 75-80 | 75-80 | 9,700 | 22,500 | 85-90 | 95-100 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth<br>**Joanne Oak** | 70-75 | 70-75 | 21,000 | 51,800 | 95-100 | 120-125 |
| Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu<br>**Sarah McCarty** | 55-60 | 70-75 | 21,200 | 22,200 | 80-85 | 90-95 |

*Yn gynwysedig mewn costau Cyflogau lle bo'n gymwys y mae unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth trethadwy yn unol â'n cynllun Teithio a Chynhaliaeth.

Caiff swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at y cyfanswm ffigur sengl ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan ein hactiwarïaid.

Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad o yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan lawer o ffactorau e.e. newidiadau yng nghyflog unigolyn, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'u cyflog neu beidio a ffactorau prisiant eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros a dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Ni dderbyniodd unrhyw aelodau staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau unrhyw fuddion mewn nwyddau gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ni weithredir cynllun ar gyfer darparu cerbydau modur i staff nac aelodau.

| Hawliau Pensiwn Cyfarwyddwyr | Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2019 £,000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Cyfanswm y cyfandaliad cronedig ar 31 Mawrth 2019 £,000 | Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn cyfandaliad ar 31 Mawrth 2019 £,000 | CETV ar 31 Mawrth 2019 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV yn 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd **Arwel Ellis Owen** | D/B | D/B | D/B | D/B | D/B | D/B | D/B |
| Prif Weithredwr **Sue Evans** | 15-20 | 0-2.5 | - | - | 324 | 260 | 57 |
| Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth /(Dirprwy Brif Weithredwr) **Gerald Evans** (hyd at 31 Mawrth 19) | 20-25 | 0-2.5 | 10-15 | (2.5)-0 | 387 | 332 | 46 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth **Joanne Oak** | 15-20 | 0-2.5 | - | - | 176 | 136 | 36 |
| Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu **Sarah McCarty** | 20-25 | 0-2.5 | 15-20 | (2.5)-0 | 211 | 166 | 41 |

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn y cynllun pensiwn.

Y Gwerth Trosglwyddo Cywerth ag Arian Parod yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun yw'r buddion y pennwyd eu gwerth. Mae'n daliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant lle bo aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion pensiwn y maent wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun, nid dim ond ar gyfer ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau CETV a manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i'r aelod yn prynu blynyddoedd ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV eu cyfrifo yn ôl y canllawiau a'r fframwaith sydd wedi'u gosod gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid.

Mae'r cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu i bob diben gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai, gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall, ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

## Datgeliad cyflog teg

| Cyflog Canolrifol | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyflog y Gweithiwr sy'n Ennill y Cyflog Mwyaf (£' 000) | 110-115 | 110-115 |
| Cyfanswm Cyflogau Canolrif | £30,943 | £30,406 |
| Cymhareb | 3.6 | 3.7 |
| Amrediad cyfanswm cyflogau | £18,673 - £113,333 | £18,307 - £111,111 |

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad.

£110,000-£ 115000 oedd cyflog band y cyfarwyddwr a oedd yn ennill y cyflog mwyaf yn Gofal Cymdeithasol Cymru ym mlwyddyn ariannol 2018-19 (2017-18: £110,000-£115,000). Roedd hyn 3.6 gwaith (2017-18: 3.7 gwaith) yn uwch na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £30,943 (2017-18: £30,406).

Cost y cyflog yn unig yw cyfanswm y cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd y cyflog yn amrywio o £18,673 i £113,333 (2017-18: £18,307 i £111,111).

## Adroddiad staff

| Costau staff | 2018-19 | 2018-19 | 2018-19 | 2018-19 | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfaswm costau £'000 | Staff cyflogedig parhaol £'000 | Staff dros dro a secondeion £'000 | Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd £'000 | Aelodau Panel £'000 | Cyfanswm Costau £000 |
| Cyflogau a Thâl | 4,038 | 3,763 | 75 | 108 | 92 | 3,329 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 385 | 382 | - | 3 | 0 | 323 |
| Costau pensiwn eraill | 1,061 | 1,061 | - | - | - | 901 |
| Ardoll Prentisiaethau | 5 | 5 | - | - | - | 1 |
| **Is-gyfanswm** | **5,489** | **5,211** | **75** | **111** | **92** | **4,554** |
| Llai adenillion o ran secondiadau allanol | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm costau net** | **5,489** | **5,211** | **75** | **111** | **92** | **4,554** |

Yn unol ag arweiniad, mae costau cyflogaeth yn cynnwys taliadau a wnaed mewn perthynas â staff contract. Cyfanswm cost cyflogau heb gynnwys Costau Pensiwn Eraill oedd £4,428,000 (£5,489,000-£1,061,000) yn 2018-19 o'i gymharu â £3,653,000 (£ 4,554,000-£901,000) yn 2017-18.

Costau pensiwn eraill yw costau gwasanaeth (presennol a gorffennol) y cynllun ac yn 2018-19, £1,061,000 oedd y cyfanswm. Mae'r swm hwn o £1,061,000 yn cynnwys cyfraniadau gwirioneddol y Cyflogwr a wnaed, sef £981,000, a oedd yn cynnwys Cyfraniadau'r Cyflogwr yn seiliedig ar gost y gyflogres, sef £867,000 a thaliadau diffyg fel cyfandaliad o £114,000. Y gwahaniaeth gweddilliol o £80,000 (£100,000 yn 2017-18) yw'r tâl uwch sy'n ofynnol i gynyddu'r cyfraniadau gwirioneddol sy'n cael eu talu gyda'r gost gwasanaeth y mae'n ofynnol ei chodi o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS 26). Mae'r tâl uwch yn 2018-19 yn ymwneud yn gyfan gwbl â chostau gwasanaeth cyfredol. Yn 2017-18 roedd y £901,000 yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr, sef £801,000, ond cynyddodd £100,000 fel y nodir uchod.

| Niferoedd staff-cyfwerth ag amser llawn | 2018-19 | 2018-19 | 2018-19 | 2017-18 (ailddatgan) |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Nifer parhaol | Nifer Eraill | Cyfanswm |
| Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr | 4 | 4 | - | 4 |
| Rheoleiddio a Gwybodaeth | 45 | 45 | - | 36 |
| Gwella a Datblygu'r Gweithlu | 31 | 30 | 1 | 26 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 31 | 30 | 1 | 29 |
| **Cyfansymiau** | **111** | **109** | **2** | **95** |

Mae'r tabl uchod yn dynodi nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Ailddatganwyd cyfanswm 2017-18 i adlewyrchu bod tri aelod o staff a nodwyd yn flaenorol fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio a Gwybodaeth bellach yn cael eu categoreiddio fel aelodau o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

## Cyfansoddiad staff

Ar 31 Mawrth 2019, o'r gweithlu o 126, roedd 90 (71%) yn fenywod a 36 (29%) yn ddynion.
O'i gymharu â hynny, ar 31 Mawrth 2018, o'r gweithlu o 111, roedd 80 (72%) yn fenywod a 31 (28 %) yn ddynion.
Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr. O'r Uwch Dîm Rheoli, roedd tair yn fenywod (75%) ac roedd un dyn (25%) sef yr un fath ag ar 31 Mawrth 2018.

Mae cyfansoddiad staff yn ôl teuluoedd swyddi fel a ganlyn:

| Cyfansoddiad staff yn ôl teulu o swyddi | Menywod | Dynion | Cyfanswm | M | D |
|---|---|---|---|---|---|
| Tîm Gweithredol | 3 | 1 | 4 | 75% | 25% |
| Uwch Dîm Arwain | 3 | 3 | 6 | 50% | 50% |
| Tîm Rheoli | 22 | 11 | 33 | 67% | 33% |
| Tîm Technegol a Datblygu | 25 | 12 | 37 | 68% | 32% |
| Tîm Cymorth | 37 | 9 | 46 | 80% | 20% |
| **Cyfansymiau** | **90** | **36** | **126** | **71%** | **29%** |

## Data absenoldeb salwch

3.73% (2017-18: 3.60%) oedd lefel salwch y staff yn ystod 2018-19 sy'n seiliedig ar golli 1,045 diwrnod o'r 28,023 diwrnod a oedd ar gael. Mae ffigur 2017-18 wedi'i ailddatgan am iddo gael ei gofnodi'n flaenorol heb gynnwys unrhyw salwch tymor hir.

## Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru statws 'Buddsoddwyr mewn Pobl ' ac mae ei bolisïau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn sicrhau bod ein holl arferion cyflogaeth a'n rhaglenni gwaith yn ymgorffori ac yn dangos nid yn unig ein dyletswydd gyhoeddus fel y'i pennwyd gan y Ddeddf Cydraddoldebau, ond yn coleddu cydraddoldeb ac amrywiaeth fel gwerth craidd sy'n sail i'w holl swyddogaethau a chyflwyno gwasanaethau ansawdd uchel ein gweithlu a'r sector. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgorffori dull hawliau dynol yn llawn yn ein holl waith. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, drwy ei gylch gwaith, yn hyrwyddo ac yn dylanwadu ar bwysigrwydd dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth a sensitifrwydd iaith yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae gennym rôl arwain wrth gyflawni Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru - y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Fel cyflogwr, rydym yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn darparu amgylchedd sy'n annog ac yn datblygu staff i ddysgu a gwella'u sgiliau dwyieithog a chymryd perchnogaeth o ethos dwyieithog y sefydliad.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ein gwaith, ac rydym yn cefnogi'n llwyr hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb a gweithredu agored yn ein trefniadau cyflogau a graddio. Eleni, ystyriodd y Pwyllgor Cyflogau ein hadroddiadau ar Gyflog Cyfartal a'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, sy'n dangos:

- Nad oes unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â chyflog.

- Ar 31 Mawrth 2019 ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw 15.58% (canolrif). Mae hyn ychydig yn well nag yn Ionawr 2018 pan oedd yn 16.46%. Y cyfartaledd cenedlaethol (DU) ar hyn o bryd yw 18.4%.

- Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd bob blwyddyn.

Er nad yw'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni baratoi adroddiad ar fwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae'n arfer da i wneud hynny.

## Llais y gweithwyr

Yn ystod 2018-19, roedd gan ein Cyngor Partneriaeth Staff rôl hanfodol yn casglu a chyflwyno barn staff ar faterion pwysig a pholisïau allweddol. Cyflawnwyd hyn drwy fforymau staff rheolaidd, cyfarfod â thimau'n unigol a chynhyrchu dogfennau adborth i'r Tîm Adnoddau Dynol a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

## Cymorth a lles

Mae ein Rhaglen Cymorth Gweithwyr yn cael ei darparu gan Care First fel rhan o Fframwaith Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Fel rhan o'r fframwaith hwn, rydym yn gallu defnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- mynediad i wasanaeth cwnsela dros y ffôn 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos i'n holl staff

- cwnsela wyneb yn wyneb

- adnoddau ar-lein.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd 10 o weithwyr y gwasanaeth cwnsela dros y ffôn (mae'r rhain yn alwyr unigol, nid galwyr mynych), a defnyddiodd 12 o weithwyr sesiynau wyneb yn wyneb.

Roedd y rhan fwyaf o'r materion a gofnodwyd yn rhai personol, er bod tri yn gysylltiedig â gwaith.

Yn 2019-20 byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwasanaeth drwy amrywiaeth o fforymau a dulliau cyfathrebu.

## Hyblygrwydd a buddion

- Cyflwynwyd a chymeradwywyd **3** chais am weithio hyblyg eleni. Ni wrthodwyd yr un cais.
- Mae **22%**% o'n gweithlu'n gweithio'n rhan-amser (llai na 36 awr yr wythnos) ac mae gan **6%** arall sy'n gweithio'n llawn amser batrymau gwaith cywasgedig dros lai o ddyddiau.
- **2** newydd yn ymuno â'r cynllun talebau gofal plant, cyfanswm o 24 o aelodau yn awr. Mae'r cynllun wedi cau i aelodau newydd bellach.
- **6** o fenthyciadau teithio i'r gwaith wedi'u caniatáu
- **16** o dalebau gofal llygaid corfforaethol wedi'u rhoi

## Gwariant ar ymgynghori

Mae unrhyw gostau ymgynghori mewn perthynas â barn arbenigol a gafwyd i helpu i wneud penderfyniadau busnes wedi'u cynnwys yn y costau Gweinyddu (Ffioedd Proffesiynol) yn y datganiadau ariannol. Yn 2018-19, roedd y costau Ymgynghori hyn yn £16,000 (2017-18:£0,000).

## Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres

Yn 2018-19 mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithredu yn unol â llythyr Annwyl Swyddog Cyfrifyddu 1/14 mewn perthynas â Threfniadau Treth y Rhai a Benodwyd o'r Sector Cyhoeddus ac nid yw'n ofynnol adrodd am unrhyw ymrwymiadau oddi ar y gyflogres.

## Pecynnau ymadael

Ni chytunwyd ar unrhyw becynnau ymadael yn 2018-19, fel yn 2017-18 hefyd.

# Atebolrwydd ac archwilio

## Rheoleidd-dra gwariant

Deliwyd â'r holl wariant yn 2018-19 yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, y Datganiad Llywodraethu a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

## Ffioedd a thaliadau

Yr incwm o Ffioedd Cofrestru ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 oedd £430,000 (2017-18: £283,000). Fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru, nid yw'r ffioedd a dderbynnir yn talu cost lawn cofrestru ac mae'r gost ychwanegol yn cael ei hariannu gan Gymorth Grant felly. Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol (Gweddnewid Gofal yn yr 21ain Ganrif) ar reoleiddio'r gweithlu gofal a chymorth, cynyddwyd lefelau ffioedd o 1 Ebrill 2018. Nid fydd y ffi uwch yn cwmpasu holl gost cofrestru o hyd a bydd y gost ychwanegol yn cael ei hariannu gan Gymorth Grant.

## Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol iawn

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol annhebygol iawn.

## Tueddiadau gwariant hirdymor

Bydd cofrestru grwpiau newydd dros y pedair blynedd nesaf yn arwain at gynnydd graddol mewn gwariant. Bydd yr incwm i ariannu'r cynnydd hwn mewn gwariant yn cael ei ariannu gan y ffioedd uwch ac ychwanegol gan unigolion cofrestredig. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi £1.3 miliwn arll o Grant Cymorth.

**Sue Evans**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfriyddu

Dyddiad: 24 Gorffennaf 2019







# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad ar Lifoedd Arian, y Datganiad ar Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd/Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Gofal Gymdeithasol Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldeabu'r archwilydd am archwilio'r n datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel

arall yn fy adroddiad,nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasglaid sicrwydd ar y wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i,ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad wedi ei baratoi yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r dealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;

- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;

- ni yw gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi datgelu; neu

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu

Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru o wnaed dan y Ddeddf honno, am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg , ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unryw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfranwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ac Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.FRC.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwyf yn cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Gofal Cymdeithasol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfeithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfridyffu yw hygrededd gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno ; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac,yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddol ar y wefan.

Adrian Crompton
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

24 Gorffennaf 2019

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Datganiadau ariannol

| **Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr**<br>ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | Nodyn | 2018-19<br>£000 | 2017-18<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 14 | 5,489 | 4,554 |
| Gwariant ar raglenni | | | |
| Cymorth hyfforddiant a grantiau eraill | 4(i) | 11,292 | 11,626 |
| Gwariant ar raglenni heb fod yn ymwneud â grantiau | 4(ii) | 2,263 | 1,660 |
| Costau gweinyddol | 5 | 1,332 | 1,156 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 1(ix) | 241 | 198 |
| Cost Llog Pensiwn | 14 | - | 10 |
| | | 20,617 | 19,204 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | | | |
| Incwm Ffioedd Cofrestru | 1(iii) | 430 | 283 |
| Incwm arall | | | |
| Ardystio Prentisiaethau | 1(iv) | 142 | 102 |
| Cymraeg Gwaith | | 250 | - |
| Incwm Amrywiol | | 28 | 1 |
| | | 850 | 386 |
| Gwariant Net | | 19,767 | 18,818 |
| Llog Derbyniadwy | 3(i) | 4 | 2 |
| Llog i'w ildio i Lywodraeth Cymru | 3(ii) | (4) | (2) |
| Gwariant Net ar ôl llog | | **19,767** | **18,818** |
| **Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Ailfesuriad actiwaraidd | 15 | (1,210) | (350) |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019** | | **18,557** | **18,468** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol**<br>ar 31 Mawrth 2019 | | | **2019** | | **2018** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Ased pensiwn | 15 | 490 | | - | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 6 | 224 | | 140 | |
| Asedau Anniriaethol | 7 | 383 | | 485 | |
| **Cyfanswm Asedau Anghyfredol** | | | 1,097 | | 625 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill derbyniadwy | 9 | 351 | | 364 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 10 | 295 | | 527 | |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | | 646 | | 891 |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **1,743** | | **1,516** |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 11 | (492) | | (366) | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | (492) | | (366) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **1,251** | | **1,150** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| **Rhwymedigaethau pensiwn** | 15 | - | | (640) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | - | | (640) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **1,251** | | **510** |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | | 761 | | 1,150 |
| Cronfa Bensiwn | | | 490 | | (640) |
| **Cyfanswm** | | | **1,251** | | **510** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 43 i 44 eu cymeradwyo gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ar 18 Gorffennaf 2019 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**Sue Evans**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 24 Gorffennaf 2019

| **Datganiad ar Lifoedd Arian**<br>ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | **Nodyn** | **2018-19**<br>**£000** | **2017-18**<br>**£000** |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o Weithgareddau Gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl llog | | (19,767) | (18,818) |
| Addasu ar gyfer Dibrisiant ac Amorteiddiad | | 241 | 198 |
| Addasiad ar gyfer Costau cyllido Pensiwn (net) | | 80 | 110 |
| Lleihad/(cynnydd) mewn masnach a symiau eraill derbyniadwy | | 13 | (47) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy | | 126 | (38) |
| (All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu | | **(19,307)** | **(18,595)** |
| **Llifoedd arian parod o Weithgareddau Buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 6 | (169) | (26) |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | (54) | (372) |
| | | **(223)** | **(398)** |
| **Llifoedd arian parod o Weithgareddau Cyllido** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Cyfalaf) | | 19,298 | 18,885 |
| **Cyllido net** | | **19,298** | **18,885** |
| **Net (Gostyngiad) mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **(232)** | **(108)** |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 10 | **527** | **635** |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 10 | **295** | **527** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Datganiad ar Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr**<br>**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019** | **Cronfa bensiwn £000** | **Cronfa gyffredinol £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | **(880)** | **973** | **93** |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2017-18** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | - | 18,885 | 18,885 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd - Cyfalaf | 240 | (240) | - |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | - | (18,468) | (18,468) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **(640)** | **1,150** | **510** |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2018-19** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | - | 19,298 | 19,298 |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd - Cyfalaf | 1,130 | (1,130) | - |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | - | (18,557) | (18,557) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **490** | **761** | **1,251** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 64 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

## 1 Datganiad o Bolisïau cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2018-19 a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau Gofal Cymdeithasol Cymru at ddiben rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1(i) Confensiwn Cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi. Fe'u paratowyd o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd.

### 1 (ii) Cyllido

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu hystyried yn gyllido ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### 1(iii) Incwm ffioedd cofrestru

Mae hwn yn deillio o'r ffioedd a godir ar gyfer cofrestru ar y Gofrestr Gofal Cymdeithasol. Ar gyfer cofrestru ar y Gofrestr yn unig y mae'r ffi hon, ac ni ystyrir ei bod yn ffi am wasanaeth parhaus. Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 18 Cydnabod Refeniw, cydnabyddir refeniw adeg y cofrestru.

### 1(iv) Incwm Ardystio Prentisiaethau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn incwm ar gyfer gwirio cydymffurfio, argraffu a phostio tystysgrifau Prentisiaeth fel rhan o'i waith ar gyfer yr Awdurdod Ardystio Prentisiaeth. Mae'r refeniw sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod dros amser yn unol â chwblhau darparu'r gwasanaethau. Yn ogystal, gan fod gan Gofal Cymdeithasol Cymru yr holl risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau, mae'r incwm yn cael ei gyfrif ar sail gros yn unol ag IAS 18 ac yn cydnabod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn ar wahân.

### 1(v) Cefnogi hyfforddiant a Grantiau Eraill

Yn ystod 2018-19, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud taliadau o dan y **Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol** sy'n gynllun cymhelliant i hyfforddi ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddi gwaith cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys taliadau i fyfyrwyr o fwrsariaeth nas asesir ar sail incwm ac elfen ychwanegol a asesir ar sail incwm ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig.

Yn ychwanegol, telir **Iwfans Cyfle Dysgu Ymarfer** i bob myfyriwr hefyd.

Cydnabyddir yr holl elfennau hyn o wariant fel rhwymedigaeth pan fydd yr hawliadau grant perthnasol yn cael eu derbyn. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith, unwaith i'r grant gael ei gymeradwyo, na all Gofal Cymdeithasol Cymru osgoi'r gost hon, oherwydd ar ôl i gymhwysedd gael ei brofi, nid oes unrhyw amodau mewn perthynas â'r grant sydd o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

**Darperir Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer (PLOF)** i Awdurdodau Lleol fel cyfraniad tuag at y gost o sicrhau Cyfleodd Dysgu Ymarfer i fyfyrwyr sy'n

dilyn cyrsiau Gwaith Cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru. Mae'r grant yn cael ei gyfrif fel rhwymedigaeth a bydd y gwariant yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr os bydd y cais yn llwyddiannus. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith na all Gofal Cymdeithasol Cymru osgoi talu'r rhwymedigaeth hon ac nad oes unrhyw amodau mewn perthynas â'r grant a fyddai'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

Gwneir taliadau mewn perthynas â'r cynllun **Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP)** lle mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ariannu 100 o lefydd bob blwyddyn i weithwyr cymdeithasol cymwys. Codir pob cost i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol â thaliadau cytundebol a wnaed i Brifysgol Caerdydd. Mae hyn yn unol â IAS37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol) gan y dylai gwerth blynyddol contractau gael ei gydnabod fel rhwymedigaeth unwaith i'r cwrs Prifysgol gychwyn gan fod Prifysgol Caerdydd wedi cyflawni ei helfen hi o'r contract ar y pwynt hwnnw.

Ers 1 Ebrill 2017, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gyfrifol am weinyddu grant rhaglen **Ddatblygu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWDP)**. Darperir y grant i helpu Awdurdodau Lleol i hyfforddi a datblygu eu staff eu hunain.
Mae cyllid sydd ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru trwy SCWDP yn 2018/19 yn darparu 70% o gost y rhaglen, sef £7,135,740 ar hyn o bryd. Bydd y 30% arall yn cael ei ariannu gan Awdurdodau Lleol. Yr amod sy'n gysylltiedig â'r grant yw bod rhaid iddo gael ei wario ar wariant cymwys a'i wario o fewn y flwyddyn ariannol. Felly, cydnabyddir y rhwymedigaeth ar gyfer y grant unwaith i'r llythyr cynnig grant gael ei ddarparu. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith nad oes unrhyw amodau ar hyn o bryd sy'n dal i fod o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y costau cymwys sy'n codi.

Mae grantiau eraill yn cynnwys:

- Grantiau Hwyluso Rhanbarthol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Statudol,

- Grantiau Pobl sy'n Defnyddio Gwasanaethau a Gofalwyr i Sefydliadau Addysg Uwch

- Grant Ymchwil i'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE).

Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y grantiau hyn yn cael eu cydnabod unwaith i'r grant gael ei hawlio gan nad oes unrhyw amodau ar hyn o bryd sy'n dal i fod o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

## 1(vi) Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill – Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol

Yn ystod 2018-19, gwnaeth nifer fechan o fyfyrwyr ddirwyn eu hyfforddiant i ben yn gynnar, gan beri ad-dalu rhan o'r dyfarniad neu'r cwbl ohono. £44,000 oedd cyfanswm yr ad-daliad a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2019 (£27,000: 31 Mawrth 2018) ac mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn nodyn 9. Polisi Gofal Cymdeithasol Cymru yw ceisio ad-daliad llawn o'r cyllid hwn.

## 1(vii) Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer ag iddynt werth unigol neu grŵp o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae eiddo, peiriannau ac offer wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2019, oherwydd ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru, nid yw unrhyw addasiadau ailbrisio yn berthnasol.

## 1(viii) Asedau Anniriaethol

Mae pryniannau Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau ag iddynt werth unigol o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae costau Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2019, oherwydd ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru, nid yw unrhyw addasiadau ailbrisio yn berthnasol.

## 1(ix) Dibrisiant ac Amorteiddiad

Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost hanesyddol pob ased ar sail linol dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased fel yr amlinellir isod, ac eithrio adnewyddu swyddfeydd, lle caiff costau eu dileu dros y cyfnod sy'n weddill o'r prydlesi swyddfa pan gânt eu prynu.

Caiff dibrisiant ac amorteiddiad ei gyfrif yn fisol ac mae'n dechrau yn y mis yn dilyn y mis prynu. Fel y cyfryw, ni fydd pryniannau a wnaed ym mis Mawrth 2019 yn dechrau dibrisio/amorteiddiad tan flwyddyn ariannol 2019-20. Yr eithriad i'r Rheol hon yw costau adnewyddu llety lle cyfrifir y tâl dibrisiant ar sail ddyddiol.

| | |
|---|---|
| **Offer cyfathrebu** | pum mlynedd |
| **Dodrefn** | deng mlynedd |
| **TG. (Eiddo, peiriannau ac offer)** | pedair blynedd |
| **Costau llety** | y cyfnod sy'n weddill o brydlesi llety pan gânt eu prynu |
| **Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau (Asedau Anniriaethol)** | pedair blynedd |

## 1(x) Prydlesi

Dosberthir prydlesi fel prydlesi cyllid pan fydd holl risgiau a holl wobrwyon perchnogaeth wedi'u trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai. Dosberthir pob prydles arall yn brydles weithredu.

Caiff gwariant ar brydlesi eiddo ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Mae rhenti prydlesi gweithredu offer yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros dymor y brydles.

Nid yw IFRS 16 a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ac a oedd yn dod i rym i'r rhan fwyaf o gwmnïau o Ionawr 2019 heb gael ei fabwysiadu gan y FReM eto. Mae'n mynnu bod unrhyw brydles â thymor prydles o fwy na 12 mis yn cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau mewn datganiadau ariannol. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei fabwysiadu o fewn y FReM o 2020-21.

## 1(xi) Treth ar Werth

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer Treth ar Werth (TAW). Caiff pob gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf, eu hadrodd gan gynnwys TAW, lle bo'n berthnasol, gan na ellir adfer unrhyw TAW.

## 1(xii) Costau Pensiwn

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr yn dod o dan Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gynllun a ariennir gan gyflogwyr lluosog. Darperir mwy o wybodaeth yn nodyn 15 o'r cyfrifon hyn lle caiff y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid eu hamlinellu.

Datgelwyd Costau Pensiwn yn unol ag IAS 19 Buddiannau Cyflogeion. Mae IAS 19 yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth benodol yn ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

## 1(xiii) Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

***Darpariaethau***
Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy.

***Rhwymedigaethau Digwyddiadol***
Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau posibl yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae'r canlyniad yn seiliedig ar ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol. Gwneir datgeliad lle nad yw rhwymedigaeth gyfredol yn debygol neu lle na ellir ei mesur yn ddibynadwy.

***Asedau digwyddiadol***
Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgelu ased posibl pan fo'r canlyniad yn seiliedig ar un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 2 Dadansoddiad o Wariant Net yn ôl Segment

Mae Cyfrif y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr yn adlewyrchu'r segmentau y mae canlyniadau gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Gweithredol er mwyn gallu asesu perfformiad yn ôl y segmentau hyn. O ganlyniad, ni roddir unrhyw dadansoddiad pellach o Wariant Net yn ôl Segment.

| 3<br>Cyllid Llywodraeth Cymru | 2018-19<br>£000 | 2017-18<br>£000 |
|---|---|---|
| Cymorth Grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru | 19,298 | 18,885 |
| **Swm a gredydwyd i'r Gronfa Gyffredinol** | **19,298** | **18,885** |

Fel yr amlinellir yn Nodyn 1(ii), mae cyfanswm y grantiau o £ 19,298,000 (2017-18: £18,885,000) bellach wedi'i gredydu i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

| 3(i) incwm na ellir ei gadw | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Llog ar y cyfrif cadw | 4 | 2 |
| **Cyfanswm incwm na ellir ei gadw** | **4** | **2** |

| 3(ii) Cysoni arian parod a gafwyd o incwm na ellir ei gadw â symiau a ad-dalwyd i Lywodraeth Cymru | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Arian Parod a Dderbyniwyd (incwm yn fwy na throthwy Llywodraeth Cymru). | 4 | 2 |
| Cyfanswm incwm ad-daladwy | 4 | 2 |
| Ad-daliad arian parod | 4 | 2 |
| **Yn ddyledus i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn** | **-** | **-** |

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru rwymedigaeth i ad-dalu llog Llywodraeth Cymru a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a'r incwm ffioedd sydd uwchlaw'r targed, sef £535,000. Talwyd y llog o £4,000 a dderbyniwyd i Lywodraeth Cymru. £445,000 oedd cyfanswm yr incwm ffioedd a gafwyd yn y flwyddyn mewn termau arian parod oedd (2017-18: £268,000).

## 4 Costau Rhaglenni

| 4(i) Cymorth Hyfforddi a grantiau eraill | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol | 2,250 | 2,409 |
| Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer | 1,181 | 1,184 |
| Cynnwys Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a Gofalwyr mewn Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol | 66 | 66 |
| Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus | 300 | 300 |
| Rhaglen Ddatblygu Gofal Cymdeithasol Cymru | 7,136 | 7,149 |
| | **10,933** | **11,108** |
| **Grantiau Eraill** | | |
| Grantiau i'r rhanbarthau | 236 | 385 |
| Ymchwil-Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth | 123 | 133 |
| | **11,292** | **11,626** |

Mae'r gostyngiad mewn gwariant ar gymorth Hyfforddi a grantiau eraill wedi deillio o'r ffaith bod llai o fyfyrwyr yn mynd ar gyrsiau. Mae'r gostyngiad yn y Grantiau i Ranbarthau o ganlyniad i lai o gyllid ar gyfer gweithgareddau ychwanegol o'i gymharu â'r llynedd.

| 4(ii) Gwariant ar raglenni heb fod yn ymwneud â grantiau | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Gwella a Datblygu'r Gweithlu | 1,355 | 769 |
| Cymraeg Gwaith | 198 | - |
| Hyfforddiant ar gyfer y Ddeddf | - | 221 |
| Rheoleiddio a Gwybodaeth gan gynnwys Rheoleiddio Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol | 710 | 670 |
| | **2,263** | **1,660** |

Mae'r cynnydd sylweddol mewn gwariant mewn perthynas â gwella a datblygu yn cynrychioli cyllid ychwanegol a dderbyniwyd mewn cymorth grant yn 2018-19 i gefnogi'r rhaglen waith estynedig.

| 5<br>**Costau Gweinyddol** | **2018-19**<br>**£000** | **2017-18**<br>**£000** |
|---|---|---|
| Treuliau'r cadeirydd, aelodau a staff | 163 | 118 |
| Costau staff eraill | 158 | 94 |
| Rhent o dan brydlesi gweithredu-llety | 154 | 148 |
| Costau safleoedd eraill | 261 | 260 |
| Gweithdai, seminarau, hyrwyddiadau, cyhoeddiadau | 143 | 118 |
| Offer a meddalwedd | 268 | 262 |
| Rhent o dan brydlesi gweithredu-llungopiwyr a pheiriannau ffrancio | 22 | 23 |
| Gweinyddu | 56 | 45 |
| Archwilio allanol-gwaith archwilio | 21 | 22 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 86 | 66 |
| | **1,332** | **1,156** |

Mae'r cynnydd mewn costau staff eraill yn ymwneud â chostau recriwtio a datblygu sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn staff o ganlyniad i ehangu'r Gofrestr.

## 6 Eiddo, Peiriannau ac Offer

| | y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adnewyddu Adeiladau | Celfi a Ffitiadau | Technoleg Gwybodaeth | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Cyfan-symiau |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | | |
| 1 Ebrill 2018 | **406** | **141** | **659** | - | **1,206** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 12 | 2 | - | 155 | 169 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (20) | - | (20) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | **418** | **143** | **639** | **155** | **1,355** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | **367** | **138** | **561** | **-** | **1,066** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 47 | 1 | 37 | - | 85 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (20) | - | (20) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | **414** | **139** | **578** | **-** | **1,131** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | **4** | **4** | **61** | **155** | **224** |
| Ar 1 Ebrill 2018 | **39** | **3** | **98** | **-** | **140** |

| | y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adnewyddu Adeiladau | Celfi a Ffitiadau | Technoleg Gwybodaeth | Asedau sy'n cael eu Hadeiladu | Cyfan-symiau |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | **406** | **141** | **735** | **-** | **1,282** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | | - | 26 | - | 26 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (102) | - | (102) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | **406** | **141** | **659** | **-** | **1,206** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| 1 Ebrill 2017 | **322** | **137** | **621** | **-** | **1,080** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 45 | 1 | 42 | - | 88 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (102) | - | (102) |
| Ar 31 Mawrth 2018 | **367** | **138** | **561** | **-** | **1,066** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | **39** | **3** | **98** | **-** | **140** |
| Ar 1 Ebrill 2017 | **84** | **4** | **114** | **-** | **202** |

| 7<br>Asedau Anniriaethol | y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019<br>Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Gwariant ar Ddatblygu | Cyfan-symiau |
|---|---|---|---|---|
| | 000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **994** | **82** | **397** | **1,473** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 45 | 9 | - | 54 |
| Trosglwyddiad o Ddatblygu | 397 | - | (397) | - |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **1,436** | **91** | **-** | **1,527** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **918** | **70** | **-** | **988** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 149 | 7 | - | 156 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **1,067** | **77** | **-** | **1,144** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **369** | **14** | **-** | **383** |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **76** | **12** | **397** | **485** |

| | y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018<br>Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Gwariant ar Ddatblygu | Cyfan-symiau |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **983** | **79** | **39** | **1,101** |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 11 | 3 | 358 | 372 |
| Trosglwyddiad o Ddatblygu | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **994** | **82** | **397** | **1,473** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **817** | **61** | **-** | **878** |
| Codwyd yn y flwyddyn | 101 | 9 | - | 110 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **918** | **70** | **-** | **988** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **76** | **12** | **397** | **485** |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **166** | **18** | **39** | **223** |

## 8 Offerynnau Ariannol

Gan y bodlonir gofynion ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru gan Gymorth Grant oddi wrth Lywodraeth Cymru yn bennaf, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff nad yw'n perthyn i'r sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â phryniant disgwyliedig a gofynion defnyddio Gofal Cymdeithasol Cymru, ac nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru felly yn agored i lawer o risg credyd, risg hylifedd neu risg y farchnad.

| 9. Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill | Ar 31 Mawrth 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau masnach sy'n dderbyniadwy | | |
| Llywodraeth Cymru | - | - |
| Awdurdodau Lleol | 33 | - |
| Dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol | 44 | 27 |
| Cyrff eraill | 25 | 24 |
| Symiau derbyniadwy eraill | | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 249 | 313 |
| | **351** | **364** |

Mae dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn ad-daladwy dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gyda myfyrwyr yn cytuno ar gontractau ad-dalu ac yn llofnodi contractau sy'n ystyried eu hamgylchiadau unigol. Fodd bynnag, at ddibenion datgelu, mae'r holl weddillion wedi cael eu cynnwys yn ddyledus cyn pen un flwyddyn ariannol.

| 10. Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 527 | 635 |
| Newid net mewn balansau arian parod ac arian a chyfwerth ag arian parod | (232) | (108) |
| Balans ar 31 Mawrth | **295** | **527** |

Roedd y balansau ar 1 Ebrill 2017, 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 yn cael eu cadw mewn Banciau Masnachol fel arian mewn llaw.

| 11. Symiau masnachol sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | Ar 31 Mawrth 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau masnach sy'n daladwy | | |
| Trethiant Arall a Nawdd Cymdeithasol | 8 | 10 |
| Symiau taladwy eraill | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 484 | 356 |
| | **492** | **366** |

## 12 Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio o £7,000 ar 31 Mawrth 2019 nad oeddent fel arall wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn (£29,000 ar 31 Mawrth 2018).

| 13. Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredu | Ar 31 Mawrth 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:** | | |
| Tir ac Adeiladau | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 271 | 115 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 1,023 | 14 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,231 | - |
| | **2,525** | **129** |
| Arall | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 23 | 23 |
| Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 42 | 65 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **65** | **88** |

| 14. Costau staff | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a chyflogau | 4,038 | 3,329 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 385 | 323 |
| Costau Pensiwn eraill | 1,061 | 901 |
| Ardoll Prentisiaethau | 5 | 1 |
| | **5,489** | **4,554** |

Ceir rhagor o fanylion am gostau staff a niferoedd staff yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff ar dudalennau 35-36.

## 15 Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

### (i) Staff Presennol a Phensiynwyr

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn a ariennir gan gyflogwyr lluosog sy'n darparu buddiannau ar oedran ymddeol arferol o 65. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Gofal Cymdeithasol Cymru ac fe'u gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cafodd cyfran Gofal Cymdeithasol Cymru o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ei nodi ar wahân am y tro cyntaf yn y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2004.

### 15(ii) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun â buddiannau diffiniedig

Mae'r Cynllun wedi'i gontractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS) ac nid yw'n destun gofynion pensiwn gofynnol Deddf Pensiynau 1995. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (rheoliad 77) yn pennu bod rhaid cyflawni prisiadau actiwaraidd ar 31 Mawrth 1998, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac fe'u darparwyd gan actiwari'r cynllun, sef Aon Hewitt Limited, Llundain.

### 15(iii) Canlyniadau o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol rhif 19 (Datgeliad)

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau a ariennir yng Nghynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y "Gronfa") sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun budd diffiniedig a ariennir gyda'r buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu cysylltu â'r cyflog terfynol. Mae buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u hailbrisio. Mae manylion y buddion a enillwyd dros y cyfnod a gwmpesir gan y datgeliad hwn wedi'u hamlinellu yn ' Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ' (fel y'i diwygiwyd) a ' Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 ' (fel y'i diwygiwyd).

### Trefniadau Ariannu/Llywodraethu y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae natur a ariennir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gofyn bod y Cyflogwr a'i gyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn 'r Gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriadwyd i fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn gyda'r asedau buddsoddi. Mae gwybodaeth am y fframwaith ar gyfer cyfrifo cyfraniadau i'w talu allan wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa. Roedd y prisiad actiwaraidd diwethaf ar 31 Mawrth 2016 ac mae'r cyfraniadau sydd i'w talu hyd at 31 Mawrth 2020 yn deillio o'r prisiad hwnnw wedi'u hamlinellu yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa. Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa.

### Asedau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod enillion a cholledion yn llawn, ar unwaith drwy'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr. Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol rhif 19 - Buddiannau Cyflogeion (IAS 19), mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol ynghylch asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.

Mae'r asedau a ddyrannwyd i'r Cyflogwr yn y Gronfa yn rhai tybiannol a rhagdybir bod yr asedau wedi'u buddsoddi yn unol â buddsoddiadau'r Gronfa at ddibenion cyfrifo'r adennill sydd i'w gymhwyso i'r asedau tybiannol hyn dros y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r Gronfa yn fawr ac mae cyfran sylweddol o'i hasedau yn fuddsoddiadau hylif. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gyfyngiad sylweddol ar realeiddio asedau os oes angen gwneud taliad mawr o'r Gronfa mewn perthynas â rhwymedigaethau cyflogwr.

Mae'r asedau wedi'u buddsoddi mewn rhychwant amrywiol o fuddsoddiadau a dangosir rhaniad bras yr asedau ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd (ar sail data a gyflenwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu) yn y datgeliadau wedi'u rhannu yn ôl buddsoddiadau dyfynedig ac annyfynedig. Gall yr Awdurdod Gweinyddu fuddsoddi cyfran fach o fuddsoddiadau'r Gronfa yn asedau rhai o'r cyflogwyr sy'n cyfranogi yn y Gronfa os yw'n rhan o'u strategaeth fuddsoddi fantoledig.

## Risgiau yn gysylltiedig â'r Gronfa mewn perthynas â chyfrifyddu

### Cyfnewidioldeb Asedau

Caiff y rhwymedigaethau a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt a osodwyd gan gyfeirio at arenillion bondiau corfforaethol. Os yw asedau'n tanberfformio, bydd hyn yn creu diffyg yn y cyfrifon. Mae'r Gronfa yn dal cyfran sylweddol o asedau twf sydd, er y disgwylir iddynt berfformio'n well na bondiau corfforaethol yn y tymor hir, yn creu cyfnewidioldeb a risg yn y tymor byr mewn perthynas â ffigurau cyfrifyddu.

### Newidiadau mewn Arenillion Bondiau

Bydd gostyngiad mewn arenillion bondiau corfforaethol yn cynyddu'r gwerth a bennir ar y rhwymedigaethau at ddibenion cyfrifyddu, er bydd hyn yn cael ei wrthbwyso fymryn gan y cynnydd yn yr asedau o ganlyniad i hynny (i'r graddau y mae'r Gronfa yn buddsoddi mewn bondiau corfforaethol).

### Risg Chwyddiant

Mae mwyafrif y rhwymedigaethau pensiwn yn gysylltiedig naill ai â chyflogau neu chwyddiant prisiau. Bydd disgwyliadau chwyddiant uwch yn arwain at werth atebolrwydd uwch. Nid oes cysylltiad perffaith rhwng yr asedau a chwyddiant, sy'n golygu y bydd cynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu'r diffyg.

### Disgwyliad Oes

Mae mwyafrif rhwymedigaethau'r Gronfa i ddarparu buddion dros oes yr aelod ar ôl ymddeol, felly bydd cynnydd mewn disgwyliad oes yn arwain at gynnydd yn y rhwymedigaethau.

### Cyflogwyr sy'n ymadael

Gall fod rhaid i gyflogwyr sy'n gadael y Gronfa (neu eu gwarantwr) wneud taliad ymadael i dalu unrhyw ddiffyg mewn asedau yn erbyn eu rhwymedigaethau pensiwn. Os nad yw'r cyflogwr (neu warantwr) yn gallu talu'r taliad ymadael hwn, gall y rhwymedigaeth mewn rhai amgylchiadau ddisgyn ar gyflogwyr eraill yn y Gronfa. Ymhellach, efallai na fydd yr asedau adeg ymadael mewn perthynas â 'rhwymedigaethau amddifad', o edrych yn ôl, yn ddigonol i dalu'r rhwymedigaethau. Gall y risg hon ddisgyn ar gyflogwyr eraill. Ar hyn o bryd, mae 'rhwymedigaethau amddifad' yn gyfran fach o'r rhwymedigaethau cyffredinol yn y Gronfa.

Amcangyfrifir mai £1.07 miliwn yw cyfraniadau rheolaidd y Cyflogwr i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu yn dod i ben 31 Mawrth 2020. Dyddiad y prisiad actiwaraidd llawn diwethaf o fuddiannau wedi'u hariannu LGPS Gofal Cymdeithasol Cymru oedd 31 Mawrth 2016 a hyd y rhwymedigaethau yw 23.4 o flynyddoedd.

| Prif Dybiaethau | 31-Maw-19 (% y flwyddyn) | 31-Maw-18 (% y flwyddyn) | 31-Maw-17 (% y flwyddyn) |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Ddisgownt | 2.5 | 2.6 | 2.6 |
| Chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu | 3.2 | 3.1 | 3.1 |
| Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 2.1 | 2.0 | 2.0 |
| Cynnydd mewn Pensiwn | 2.1 | 2.0 | 2.0 |
| Cyfradd ailbrisio cyfrifon pensiwn | 2.1 | 2.0 | 2.0 |
| Cynnydd mewn Cyflogau | 3.4 | 3.3 | 3.3 |

## Tybiaeth marwoldeb

Mae'r tybiaethau marwoldeb wedi'u seilio ar brofiad marwoldeb gwirioneddol diweddar aelodau yn y Gronfa yn seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o brisiad 2016, ac maent yn caniatáu ar gyfer gwelliannau disgwyliedig o ran marwoldeb yn y dyfodol. Mae disgwyliadau oes enghreifftiol yn 65 oed yn deillio o'r tybiaethau marwoldeb hyn wedi'u dangos isod.

| Disgwyliad oes tybiedig yn 65 oed | 31-Maw-19 | 31-Maw-18 |
|---|---|---|
| **Dynion** | | |
| Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 22.2 | 22.9 |
| Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 23.9 | 25.1 |
| **Menywod** | | |
| Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 24.1 | 25.0 |
| Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu | 25.9 | 27.3 |

| Dyraniad Asedau | Gwerth ar 31 Mawrth 2019 | | | Gwerth ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | Dyfynedig | Annyfynedig | Cyfanswm | |
| Ecwitïau | 64.5% | 0.0% | 64.5% | 74.8% |
| Eiddo | 6.9% | 0.0% | 6.9% | 5.4% |
| Bondiau Llywodraeth | 13.5% | 0.0% | 13.5% | 8.5% |
| Bondiau Corfforaethol | 11.6% | 0.0% | 11.6% | 9.4% |
| Arian Parod | 3.5% | 0.0% | 3.5% | 1.9% |
| Arall | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **0.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

| Cysoni'r Statws a Ariennir i'r Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol | Gwerth ar 31 Mawrth 2019 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2018 (£M) |
|---|---|---|
| Gwerth teg yr Asedau | 21.00 | 18.15 |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a ariennir | 20.51 | 18.79 |
| **Statws yn cael ei Ariannu** | **0.49** | **(0.64)** |
| Ased heb ei gydnabod | 0.00 | 0.00 |
| **Ased/(Rhwymedigaeth) a gydnabyddir ar y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol** | **0.49** | **(0.64)** |

Roedd rhaniad y rhwymedigaeth ddiffiniedig ar y dyddiad prisio diwethaf rhwng y categorïau aelodau amrywiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 62% |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 22% |
| Pensiynwyr | 16% |

| Symiau a gydnabyddir yn y Gwariant Net Cynhwysfawr | Blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2019 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 (£M) |
|---|---|---|
| **Cost Gweithredu** | | |
| Cost gwasanaeth presennol (1) | 1.06 | 0.90 |
| Cost gwasanaeth blaenorol (yn cynnwys cwtogiadau) | 0.00 | 0.00 |
| Cost setliadau | 0.00 | 0.00 |
| **Cost Ariannu** | | |
| Llog ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net | 0.00 | 0.01 |
| **Cost pensiwn a gydnabuwyd yn y Gwariant Net** | **1.06** | **0.91** |
| **Ailfesuriadau mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | |
| Adenillion ar asedau'r cynllun (uwchlaw) hynny a gydnabyddir mewn llog net | (1.35) | (0.40) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newid mewn rhagdybiaethau ariannol | 0.94 | 0.00 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newid mewn rhagdybiaethau demograffig | (0.83) | 0.00 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil profiad rhwymedigaethau | 0.03 | 0.05 |
| Addasiad mewn perthynas â pharagraff 64 | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm a gydnabuwyd mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall** | **(1.21)** | **(0.35)** |
| **Cyfanswm a gydnabuwyd mewn Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr** | **(0.15)** | **0.56** |

(1) Mae'r gost gwasanaeth presennol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu (£M) 0.02 0.01

| Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 (£M) |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth agoriadol buddiannau diffiniedig** | **18.79** | **17.20** |
| Cost gwasanaeth presennol | 1.06 | 0.90 |
| Cost Llog ar Rwymedigaeth Buddion Diffiniedig | 0.49 | 0.45 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.25 | 0.21 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | 0.94 | 0.00 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | (0.83) | 0.00 |
| (Enillion) actiwaraidd yn sgil profiad rhwymedigaethau | 0.03 | 0.05 |
| Buddiannau net a dalwyd allan | (0.22) | (0.02) |
| Cost gwasanaeth blaenorol (yn cynnwys cwtogiadau) | 0.00 | 0.00 |
| Cynnydd net mewn rhwymedigaethau o werthu/caffaeliadau | 0.00 | 0.00 |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| **Rhwymedigaeth derfynol buddiannau diffiniedig** | **20.51** | **18.79** |

| Newidiadau i Werth Teg Asedau yn ystod y Flwyddyn | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2019 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 (£M) |
|---|---|---|
| **Gwerth teg agoriadol yr asedau** | **18.15** | **16.32** |
| Incwm llog ar asedau | 0.49 | 0.44 |
| Ail-fesur enillion ar asedau | 1.35 | 0.40 |
| Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 0.98 | 0.80 |
| Cyfraniadau gan y Cyfranogwyr | 0.25 | 0.21 |
| Buddion net a dalwyd allan | (0.22) | (0.02) |
| Cynnydd net mewn asedau o waredidau a chaffaeliadau | 0.00 | 0.00 |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| **Gwerth teg terfynol yr asedau** | **21.00** | **18.15** |

| Adenillion Gwirioneddol ar Asedau | Blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2019 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 (£ M) |
|---|---|---|
| Incwm llog ar asedau | 0.49 | 0.44 |
| Ailfesur enillion ar asedau | 1.35 | 0.40 |
| **Adenillion gwirioneddol ar asedau** | **1.84** | **0.84** |

## Amcangyfrif o gost pensiynau yn y dyfodol

### Buddiannau a Ariennir

Darparwn amcangyfrif o'r costau i wariant cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, ar sail y rhagdybiaethau a amlinellwyd uchod.

| Dadansoddiad o'r swm a godir mewn gwariant cynhwysfawr arall ar ddarparu gwasanaethau y flwyddyn nesaf | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 (£M) |
|---|---|
| Cost gwasanaeth presennol | 1.10 |
| Llog ar rwymedigaeth buddiant diffiniedig net | (0.03) |
| **Cyfanswm amcangyfrif cost pensiynau** | **1.07** |

| | |
|---|---|
| Lwfans ar gyfer treuliau gweinyddol sydd wedi'u cynnwys yn y Gost Gwasanaeth Presennol (£M) | 0.02 |
| Cyflogres pensiynadwy amcangyfrifedig dros y cyfnod (£M) | 3.57 |

## Dadansoddiad o Sensitifrwydd

Mae effaith fras newid y prif dybiaethau ar werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a ariennir ar 31 Mawrth 2019 a'r gost gwasanaeth amcanol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 wedi'i nodi isod.

Ym mhob achos, dim ond y dybiaeth a grybwyllir sydd wedi'i newid; mae'r holl dybiaethau eraill yn aros yr un fath a rhoddir crynodeb ohonynt uchod.

| **Tybiaeth cyfradd ddisgownt**<br>Addasiad i'r gyfradd ddisgownt | **+0.1% p.a.** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% p.a.** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 20.04 | 20.51 | 21.00 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | -2.3% | - | 2.4% |
| Cost gwasanaeth ragamcanol (£M) | 1.07 | 1.10 | 1.13 |
| Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol | -3.1% | - | 3.2% |

| **Cyfradd cynnydd cyffredinol mewn cyflogau**<br>Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn cyflogau | **+0.1% p.a.** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% p.a.** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 20.64 | 20.51 | 20.38 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 0.7% | - | -0.7% |
| Cost gwasanaeth ragamcanol (£M) | 1.10 | 1.10 | 1.10 |
| Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol | 0.0% | - | 0.0% |

| **Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau a rhagdybiaeth pensiynau gohiriedig, a chyfradd ailbrisio'r rhagdybiaeth cyfrifon pensiwn**<br>Addasiad i gyfradd cynnydd mewn pensiynau | **+0.1% p.a.** | **Ffigur sylfaenol** | **-0.1% p.a.** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 20.86 | 20.51 | 20.17 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 1.7% | - | -1.7% |
| Cost gwasanaeth ragamcanol (£M) | 1.13 | 1.10 | 1.07 |
| Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol | 3.2% | - | -3.1% |

| **Tybiaeth marwoldeb ar ôl ymddeol***<br>Addasiad i dybiaeth y gyfradd oedran marwolaeth | **-1 flwyddyn** | **Ffigur sylfaenol** | **+1 flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M) | 21.15 | 20.51 | 19.87 |
| % newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth | 3.1% | - | -3.1% |
| Cost gwasanaeth ragamcanol (£M) | 1.14 | 1.10 | 1.06 |
| Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol | 3.9% | - | -3.9% |

## 16 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol a ddatgelwyd o dan IAS 37

Fe allai'r cytundebau prydles mewn perthynas â'n swyddfeydd yng Nghaerdydd a Llanelwy fynnu y dylai unrhyw newidiadau, ychwanegiadau a rhaniadau gael eu dileu pan ddaw'r brydles i ben. Nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud gan fod y rhwymedigaeth hon yn ansicr ac mae'n amodol ar y landlord yn gofyn am y dileu.

O ran ein rhwymedigaeth cynllun buddion diffiniedig, ni wnaed unrhyw lwfans mewn perthynas â dyfarniadau McCloud a Lloyds GMP oherwydd, ar hyn o bryd, bydd symiau'r rhwymedigaethau yn frasamcan gan na ellir eu hamcangyfrif yn ddibynadwy. Mae amcangyfrifiad wedi'i wneud gan yr actiwarïaid sydd ag atebolrwydd posibl o £400,000. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar y senario gwaethaf (fel y'i diffinnir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth) ar amcangyfrif o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ei gyfanrwydd ac nid yw'n ystyried proffiliau unigol fel oedran aelodau.

Yn ogystal, mewn perthynas ag achos McCloud, bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo yn ôl i dribiwnlys cyflogaeth am benderfyniad manwl ar yr hyn y dylai cronfeydd unigol ei wneud i unioni'r gweithwyr yr effeithir arnynt. Ar hyn o bryd nid oes eglurder o ran pa ffurf y bydd yr adferiad yn ei chymryd mewn perthynas ag aelodau y gwahaniaethwyd yn eu herbyn gan fod ystod o atebion posibl y gellir eu defnyddio. Felly, nid yw'r sefyllfa derfynol o ran rhwymedigaethau pensiwn cyflogwr ac effaith ariannol yn glir o hyd.

Wrth ystyried GMP,  mae Llywodraeth wedi nodi ei bod wedi ymrwymo i ddigolledu aelodau a fydd yn cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 2021 ond sy'n dal i ymgynghori ar nifer o opsiynau ar gyfer darparu codiadau pensiwn ar GMP ar gyfer yr aelodau hynny.

Felly, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer unrhyw atebolrwydd posibl yn y datganiadau ariannol hyn.

## 17 Ased Digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2019 roedd £60,000 o ffioedd cofrestru yn ddyledus. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) 2016 ni allwn ond cael gwared ar unigolion cofrestredig am beidio talu ffioedd sy'n ddyledus adeg adnewyddu cofrestriad sy'n digwydd dair blynedd ar ôl y cofrestriad cychwynnol ac yna ar gylch tair blynedd. Ar sail y profiad a gafwyd hyd yma, dim ond ar y dyddiad adnewyddu hwn y gallwn brofi mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r ffioedd sydd heb eu talu a yw'r unigolyn cofrestredig heb dalu am ei fod wedi gadael y sector (ac na fyddwn yn mynd ar ôl y ffi ddyledus) neu a yw'n ddyled ddilys sy'n perthyn i unigolyn cofrestredig.

Felly ni chaiff y ffioedd cofrestru o £60,000 sy'n ddyledus eu trin fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr gan nad ydym yn siŵr o union werth economaidd y swm hwn ag ar sail unigol. Ni fyddwn yn gwybod a fydd yr incwm yn cael ei wireddu hyd nes y cyrhaeddir dyddiad adnewyddu pob swm unigol neu symiau sy'n ddyledus.

## 18 Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael amrywiol drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Roedd y trafodion a'r balansau fel a ganlyn:

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| Incwm | £19.298m | £18.885m |
| Gwariant | £0.024m | £0.026m |
| Balans dyledwyr ar 31 Mawrth | - | £0.006m |
| Balans credydwyr ar 31 Mawrth | - | £0.001m |

## Aelodau Bwrdd a Staff Gofal Cymdeithasol Cymru

Ni fu unrhyw gyflogeion, gan gynnwys staff rheoli allweddol nac aelodau'r Bwrdd na'u partïon cysylltiedig, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn, ar wahân i hawliadau treuliau arferol, taliadau cyflog ac ati. Mae gwybodaeth am staff rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae ein Cadeirydd yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru hefyd, ac yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd y trafodion gwariant gyda Phrifysgol Cymru yn £0 (2017-18: £918) a gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn £195,069 (£2017-18:£2,104). Roedd y £195,069 yn ymwneud yn bennaf â thaliadau contract i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar gyfer darparu cyrsiau Cymraeg Gwaith ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol. Nid oedd balans dyledwyr na chredydwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2018 roedd balans credydwr o £918 gyda Phrifysgol Cymru a £288 gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Yn ogystal, roedd dau aelod o'n Bwrdd yn aelodau o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a oedd yn derbyn cyllid grant gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y trafodion fel a ganlyn:

| Aelod o'r Bwrdd | Rôl | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Gwariant 2018–19 | Gwariant 2017–18 |
|---|---|---|---|---|
| Abigail Harris | Aelod | Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro | 37,036 | 56,036 |
| Carl Cooper | Dirprwy Gadeirydd | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys | 21,574 | 40,574 |

Noder fod y taliadau yn y tabl uchod wedi eu gwneud i'r awdurdod lleol a enwebwyd sef Cyngor Dinas Caerdydd (Caerdydd a'r Fro) a Chyngor Sir Powys (Powys).

## 19 Asedau Trydydd Parti

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw unrhyw asedau trydydd parti lle mae'n gweithredu fel ceidwad neu fel ymddiriedolwr ynddynt.

## 20 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd, y mae'n rhaid addasu datganiadau ariannol blynyddol 31 Mawrth 2019 ar eu cyfer.

## 21 Trosglwyddo Swyddogaethau

Ar 1 Ebrill 2017, er mwyn uno swyddogaethau rheoleiddio'r gweithlu, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau mewn un sefydliad, cafodd swyddogaethau gwella gwasanaethau'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol eu trosglwyddo i Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni chafodd unrhyw asedau na rhwymedigaethau eu trosglwyddo, ond cafodd y Cymorth Grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ei gynyddu i ariannu'r gwariant ychwanegol, gan gynnwys trosglwyddo tri aelod o staff.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**